ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig

Llawlyfr 2021-22

Gweledigaeth a Gwerthoedd Athrofa Padarn Sant

Gweledigaeth

Gwasanaethu cenhadaeth weddnewidiol Duw o gariad at Gymru drwy fod yn gymuned sy'n canolbwyntio ar ffurfiant a hyfforddiant wedi'u seilio ar genhadu i holl bobl Duw.

Gwerthoedd

Cymuned sydd:

- yn edrych tuag allan
- yn ysbrydol
- yn dysgu
- yn newid
- yn ddewr

Cymuned sy'n ceisio gwasanaethu:

- cymunedau lleol
- yr Eglwys yng Nghymru
- pobl Cymraeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith fel ei gilydd
- holl ddaearyddiaeth Cymru
- pobl o bob lliw a llun lle bynnag y maen nhw yn eu disgyblaeth a'u gweinidogaeth.

Cynnwys

Gweledigaeth a Gwerthoedd Athrofa Padarn Sant 2
Rhestr Wirio Flynyddol 8
Gorffennaf 8
Awst 8
Medi 8
Hydref 8
Tachwedd 8
Rhagfyr 9
Ionawr 9
Chwefror 9
Mawrth 9
Ebrill 9
Mai 9
Mehefin 9
Tiwtoriaid Athrofa Padarn Sant 10
Cysylltiadau defnyddiol: 10
Astudio Diwinyddiaeth 11
Cyfnodau preswyl 11
Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaethol 12
Yr Esgob William Morgan 13
Griffith Jones (Llanddowror) 13
Mari Jones 13
Lleoliadau 13
I ymgeiswyr 15
Arweiniad i ymgeiswyr ar fyfyrdod 16
Cwestiynau i gynorthwyo myfyrdod 16
Pregethu 16
I'r goruchwyliwr 17
Profiadau Pellach yn y Weinidogaeth 18
Ffurflenni a Rhestrau Gwirio ar gyfer Lleoliadau 18
Celloedd Ffurfiannol 18
Nodau Celloedd Ffurfiannol 19
Strwythur y Cyfarfod 20
Nodyn ynglŷn â chyfrinachedd o fewn Celloedd Ffurfiannol 21

Adrodd ar Ffurfiant ... 21
Strwythur y cyfarfodydd ... 21
Adroddiadau i'r Esgob ... 22
Adroddiadau arbennig ... 23
Cefnogaeth a chymorth bugeiliol ... 23
Dysgu Cymraeg ... 25
Y Rhaglen Dydd Mercher – Dydd Gwener (Ymgeiswyr Llawn Amser) ... 25
Addoli ... 26
Cymuned ... 26
Cyfleoedd Dysgu Ychwanegol ... 26
Wythnos Cenhadaeth ac Efengylu ... 27
Polisïau a ble i ddod o hyd iddyn nhw ... 27
Polisi presenoldeb ... 28
Beth yw goblygiadau colli unrhyw agwedd ar y cwrs? ... 29
Beth yw absenoldebau wedi'u hawdurdodi a heb eu hawdurdodi? ... 29
Proffesiynoldeb, cwrteisi ac ymddiriedaeth ... 29
Cyfrinachedd o fewn Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig a Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd ... 31
Gwyliau ... 33
Gwybodaeth ymarferol ... 34
Grantiau ... 34
Treuliau ... 34
Cefnogaeth i bartneriaid â theuluoedd ... 35
Ffurflenni ... 36
... 37
Cofnod Ffurfiant 2021/22 ... 37
Cytundeb ar gyfer Hyfforddiant ar Leoliad ... 40
1. Manylion cyffredinol ... 40
2. Datblygiad ffurfiannol ... 40
Ffurflen Adborth ar Bregethu ... 42
... 44
Adroddiad terfynol lleoliad ... 44
Adroddiad y Goruchwyliwr: ... 44
... 46
Rhestr Wirio ac Adroddiad Blynyddol ar gyfer Lleoliad ... 46

Ffurflen Hunanasesu 47
Hyfforddiant a Datblygiad yn y Dyfodol 49
Sylwadau ychwanegol 49
Adolygiad Blynyddol Cell Ffurfiannol 51
Adroddiad Cell Ffurfiannol 52
Dyddiadau pwysig 54

Croeso!

Ac yr ydym ni i gyd, heb orchudd ar ein hwyneb, yn edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd ac yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef. A gwaith yr Arglwydd, yr Ysbryd, yw hyn.
2 Corinthiaid 3:18

Croeso i'r llawlyfr hwn sy'n esbonio agweddau gwahanol ar eich hyfforddiant a sut maen nhw i gyd yn cyd-fynd â'i gilydd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar unrhyw adeg mae croeso i chi gysylltu â Lyn Davies, cydlynydd y cwrs, â'ch tiwtor ffurfiant neu â fi, y Deon Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion. Mae'r holl fanylion cyswllt yn y llawlyfr hwn.

(Mae'r llawlyfr hwn wedi'i ysgrifennu i bawb sy'n ymwneud â hyfforddi ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth. Mae wedi'i anelu'n uniongyrchol at yr ymgeisydd yn bennaf, ond mae ynddo adran hefyd ar gyfer goruchwylwyr lleoliadau. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi'r goruchwylwyr am eich holl waith caled gyda'r ymgeiswyr a'ch buddsoddiad yn arweinwyr y dyfodol. Mae croeso i chi ddarllen y llawlyfr cyfan i gael trosolwg o sut mae'r lleoliad yn cyd-fynd â'r broses ffurfiant gyfan.)

Gelwir paratoi ar gyfer y weinidogaeth yn 'ffurfiant' oherwydd mae'n ymwneud â mwy na dysgu sgiliau – mae hefyd yn ymwneud â chael ein ffurfio, yn ddisgybl ac yn weinidog, yn fersiwn orau ohonom ni ein hunain. Fel y mae'r dyfyniad uchod o ail lythyr Paul at y Corinthiaid yn ein hatgoffa, gwaith yr Ysbryd yw ffurfiant (neu drawsnewidiad). Ni all tasgau neu aseiniadau ynddynt eu hunain ein paratoi'n ddigonol ar gyfer y weinidogaeth, mae ffurfiant yn ymwneud â sicrhau ein bod yn agored i Dduw er mwyn iddo weithio ynom ni a thrwy eraill. Felly ein rôl yw eich annog i ddatblygu arferion twf gydol oes mewn gweddi, dysgu diwinyddol a myfyrdod ar ymarfer a sicrhau eich bod yn cyrraedd y broses drwyddedu neu ordeinio (yn ddiau wedi'ch brawychu, ond wedi'ch cyffroi hefyd…) yn barod ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth yn eglwys Duw, wedi'ch herio a'ch annog i dyfu'n berson y mae Duw yn galw arnoch chi i fod. Rydych yn ymuno â chymuned o bobl o'r un anian sydd eisiau tyfu mewn ffydd a dewrder, a'n gobaith yw y byddwch nid yn unig yn cael eich annog a'ch ysbrydoli gennym ni yn Athrofa Padarn Sant ond gan eich cyd-ymgeiswyr hefyd. O'n profiad ni, byddwch yn gwneud ffrindiau yn Athrofa Padarn Sant a fydd yn eich cefnogi, nid yn unig yn ystod eich cyfnod hyfforddi ond hefyd drwy gydol eich gweinidogaeth. Rwy'n edrych ymlaen at rannu'r daith hon gyda chi.

Cofion cynnes,

Manon

Y Parchedig Dr Manon Ceridwen James
Deon Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion

Rhestr Wirio Flynyddol

Gydol y flwyddyn:

- Anfon ffurflenni adborth pregethu at reporting@stpadarns.ac.uk ar ôl pob pregeth
- Cyfarfodydd celloedd ffurfiannol (8 rhan-amser gydol y flwyddyn)
- Cadw dyddiadur o fyfyrdodau a nodyn o dasgau lleoliad a'ch ymateb iddynt. Gall fod yn gryno ac ni fydd yn cael ei rannu â ni ond gall fod yn sail i sgyrsiau â thiwtoriaid ac ar gyfer eich hunanasesiad yn ystod y flwyddyn olaf
- Sicrhau bod y Cofnod Ffurfiant yn gyfredol a bod gennym wybodaeth gyswllt gyfredol
- Sicrhau bod gennych gyfarfodydd rheolaidd yn y dyddiadur gyda'ch goruchwyliwr lleoliad ar gyfer goruchwylio gydol y flwyddyn, o leiaf 8-12.
- Sicrhau eich bod yn cyfarfod â'ch tiwtor o leiaf dair i bedair gwaith y flwyddyn.

Gorffennaf

Ysgol haf!

Awst

Medi

Cytuno ar ddyddiadau pregethu, naill ai am y tymor, neu hyd yn oed am y flwyddyn!

Cyfarfod 1-1 gyda'ch tiwtor (neu ym mis Hydref).

Os ym mlwyddyn 1 sefydlu cytundeb lleoliad gyda Chris Thomson neu diwtor dirprwyedig a goruchwyliwr lleoliadau, oni bai bod hyn eisoes wedi digwydd.

Hydref

Darllen neu fyfyrio paratoadol ar gyfer cyfnod preswyl.

Cyfnod preswyl

Cyfarfod 1-1 gyda thiwtor (oni bai bod hyn wedi digwydd ym mis Medi).

Tachwedd

Os ydych yn y flwyddyn OLAF, ceisiwch annog eich goruchwyliwr lleoliadau a'ch arweinydd cell ffurfiannol i gyflwyno eu ffurflenni ar gyfer y broses adrodd i'r Esgob ac ysgrifennu eich hunanfyfyrdod eich hun. Dylid dychwelyd yr holl ffurflenni i reporting@stpadarns.ac.uk heb fod yn hwyrach na **dydd Llun 8 Tachwedd 2021**

Rhagfyr

Y flwyddyn olaf YN UNIG - cwblhau adroddiadau i'r Esgob. Cyfarfod â'r tiwtor i drafod yr adroddiad i'r Esgob a chytuno arno. Adroddiadau wedi'u llofnodi i'w dychwelyd erbyn dydd **Llun 13 Rhagfyr 2021 fan bellaf.**

Ionawr

(Cytuno ar ddyddiadau pregethu)
Darllen neu fyfyrio paratoadol ar gyfer cyfnod preswyl.

Cyfarfod 1-1 gyda'ch tiwtor

Chwefror

Cyfnod preswyl

Cyfarfod 1-1 gyda'ch tiwtor (oni bai bod hyn wedi digwydd ym mis Ionawr).

Mawrth

Ymgeiswyr blwyddyn gyntaf – casglu ffurflenni ar gyfer y broses adrodd i'r Esgob ac ysgrifennu eich hunanfyfyrdod. Ffurflenni i'w dychwelyd i reporting@stpadarns.ac.uk erbyn **dydd Gwener 4 Mawrth** ar yr hwyraf.

Ebrill

(Cytuno ar ddyddiadau pregethu)
Darllen neu fyfyrio paratoadol ar gyfer cyfnod preswyl

Ymgeiswyr yn hyfforddi am flwyddyn yn unig - Cwrdd â'ch tiwtor i gytuno ar yr adroddiad i'r Esgob. Adroddiadau wedi'u llofnodi i gael eu dychwelyd erbyn **dydd Mercher 5 Ebrill 2022.**

Mai

Cyfnod preswyl

Cyfarfod 1-1 gyda'ch tiwtor

Blwyddyn olaf – gorffen eich lleoliad tua chanol mis Mai

Blwyddyn nad yw'n flwyddyn olaf - meddwl am unrhyw drafodaethau y mae angen eu cael ynglŷn â'ch llwybr dysgu

Mehefin

Blwyddyn nad yw'n flwyddyn olaf - ffurflenni lleoliad i: reporting@stpadarns.ac.uk ac i Chris Thomson chris.thompson@stpadarns.ac.uk

Ffurflen adolygu cell ffurfiannol i reporting@stpadarns.ac.uk ac i Jordan Hillebert Jordan.hillebert@stpadarns.ac.uk

Mae'r rhaglen ffurfiant ar gyfer y weinidogaeth drwyddedig yn cynnwys pedwar maes hyfforddi, ac mae pob un mor bwysig â'i gilydd. Un egwyddor bwysig yn Athrofa Padarn Sant yw ein bod yn credu mewn **ffurfiant integredig**, sef bod pob agwedd ar yr hyfforddiant yn bwydo ei gilydd, ac yn dyfnhau ei gilydd.

Tiwtoriaid Athrofa Padarn Sant

Yn gyffredinol, eich tiwtor ffurfiant fydd eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cwestiynau neu broblemau a bydd yn cwrdd â chi'n rheolaidd drwy gydol eich cyfnod hyfforddi. Byddwn yn dweud wrthych pwy yw eich tiwtor ac yn rhoi ei manylion cyswllt i chi yn yr ysgol haf. Bydd y tiwtor yn gyfrifol am gadw eich cofnod ffurfiant yn gyfoes, a bydd ar gael i'ch cefnogi yn fugeiliol ac yn ffurfiannol. Bydd ar gael i drafod eich cryfderau a'r heriau y byddwch yn eu hwynebu a bydd yn ysgrifennu'r drafft cyntaf o'r adroddiad i'r esgob.

Mae'n debyg y byddwch yn dod i gysylltiad â phob un o diwtoriaid Athrofa Padarn Sant rhyw ffordd neu'i gilydd drwy gydol eich cyfnod hyfforddi. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth am y gwahanol rolau a chyfrifoldebau.

Cysylltiadau defnyddiol:

Lyn Davies: 0292 0838079
Lyn.davies@stpadarns.ac.uk

Y Parchedig Dr Manon Ceridwen James: 07776 591 799/02920838002 (Mer- Gwe)
manon.c.james@stpadarns.ac.uk

Y Parchedig Helen Rees: 07776 589 732
helen.rees2@stpadarns.ac.uk

Y Parchedig John-Daniel Laurence: 07552 385 330
jd.laurence@stpadarns.ac.uk

Y Parchedig Dr Jordan Hillebert: 02920 838073
jordan.hillebert@stpadarns.ac.uk

Rev'd Chris Thomson: 07508527569
chris.thompson@stpadarns.ac.uk

Dr Elizabeth Corsar: 02920 838004
Elizabeth.corsar@stpadarns.ac.uk

Astudio Diwinyddiaeth

Bydd mwyafrif yr ymgeiswyr yn astudio'r rhaglen 'Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd' (BTh mewn Diwinyddiaeth ar gyfer Gweinidogaeth a Chenhadaeth Disgyblaeth) a ddilyswyd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Yn wir, efallai eich bod eisoes wedi dechrau ar y cwrs hwn tra roeddech yn paratoi ar gyfer dirnadaeth. Mae hwn yn gwrs gradd ac, fel y cytunwyd â ni yn eich cynllun hyfforddi, byddwch yn astudio i lefel tystysgrif (lefel 4), lefel diploma (lefel 5) neu lefel gradd (lefel 6).

Os oes gennych radd mewn diwinyddiaeth eisoes, gallwch astudio ar gyfer cymhwyster ôl-raddedig, fel arfer gyda'n gradd Meistr, sydd wedi'i dilysu gan Brifysgol Durham. Yn dibynnu ar faes llafur y radd wreiddiol mewn Diwinyddiaeth, efallai y bydd angen i chi astudio modiwl mewn meysydd o bwysigrwydd allweddol i ffurfiant gweinidogaeth (e.e. litwrgi, diwinyddiaeth ymarferol, cenhadu ac efengylu) nad ydych chi wedi'u hastudio o'r blaen. Bydd nifer fach o ymgeiswyr ag anghenion/astudiaethau blaenorol mwy anarferol yn dilyn rhaglen bersonol o astudiaeth ddiwinyddol. Yn yr achosion hyn, bydd yn ddefnyddiol i ni gael rhestr o'r modiwlau yr ydych wedi'u hastudio eisoes.

Mae llawlyfr gwahanol ar gyfer eich cwrs diwinyddiaeth. Mae ymgeiswyr llawn amser yn astudio diwinyddiaeth ar safle Athrofa Padarn Sant yng Nghaerdydd ac mae ymgeiswyr rhan amser yn dilyn cwrs Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd yn eu hardal leol. Mae'r maes llafur yr un peth, fodd bynnag.

Cyfnodau preswyl

Rhan allweddol arall o hyfforddiant yw ein rhaglen o gyfnodau preswyl, sef ysgol haf bob blwyddyn sy'n para wythnos a thri phenwythnos, a gynhelir mewn gwahanol rannau o Gymru. **Mae'n hanfodol bod yn bresennol ym mhob un o'r rhain** gan eu bod yn rhan annatod o'r hyfforddiant. Dyma pryd y daw'r gymuned gyfan ynghyd i weddïo, cymdeithasu, dysgu ac addoli, ac agwedd bwysig arall ar y cyfnod preswyl fydd cyfarfod â'ch tiwtor. Yn ystod cyfnodau preswyl rydym yn dysgu gyda'n gilydd am ddiwinyddiaeth ac ymarfer gweinidogol, ac rydym hefyd yn edrych gyda'n gilydd ar themâu pwysig yn y weinidogaeth.

Y maes llafur yw:

Blwyddyn A = 2021/22 Blwyddyn B = 2022/23

Ysgol Haf - Arwain eich Eglwys at Dwf
Gobaith Cristnogol (A)
Cynnal Gweinidogaeth Ffrwythlon (A)
Iachawdwriaeth (A)

Ysgol Haf - Ysbrydolrwydd

Cymeriad a Ffurfiant Cristnogol (B)
Bywyd Newydd (B)
Doethineb mewn Arweinyddiaeth (B)

Cynhelir ysgol haf arbennig bob blwyddyn i'r rhai yn eu trydedd flwyddyn ar y thema *Arweinyddiaeth ar gyfer y Byd Heddiw*, i baratoi'r rhai a fydd yn chwarae rhan sylweddol mewn arweinyddiaeth yn yr Eglwys yn y dyfodol. Bydd cymysgedd o siaradwyr gwahanol ym mhob cyfnod preswyl felly er y gall themâu fod yn debyg ym mhob bloc dwy flynedd, bydd meysydd dysgu newydd i'r rheiny sydd ar raglen tair blynedd.

Yn ystod ein cyfnodau preswyl, byddwn yn addysgu'r rhaglen Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaethol (DYG).

Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaethol

I'r rhai ohonoch sydd eisoes yn dilyn y rhaglen Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig, rydym yn newid yr iaith sy'n gysylltiedig â'n cyfnodau preswyl. Nawr rydym yn galw'r hyn rydym yn addysgu mewn perthynas â sgiliau'r weinidogaeth yn 'Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaethol (DYG neu yn y Saesneg TPM)'.

Mae'r teitl hwn yn fwriadol ac rydym eisiau pwysleisio hyd yn oed yn y rhan hon o'r hyfforddiant, ein bod yn credu mewn hyfforddiant ffurfiannol integredig. Felly ni allwn wahanu sgiliau'r weinidogaeth oddi wrth y ddiwinyddiaeth sy'n sail iddi.

I'r rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth fwy cyffredinol, byddwch yn dilyn y cwrs Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaethol yng ngharfan eich blwyddyn. Er hwylustod, rydym wedi enwi'r carfannau hyn ar ôl ffigurau crefyddol hanesyddol Cymru:

- Yr Esgob William Morgan
- Griffith Jones (Llanddowror)
- Mari Jones

Darllenwch eu storiau, os nad ydych yn gyfarwydd â'u dylanwad ar grefydd a ffydd yng Nghymru.

I'r rhai sy'n dilyn gweinidogaeth fwy arbenigol, byddwn yn datblygu llwybr i chi drwy'r rhaglen a fydd wedi'i deilwra'n arbennig ar eich cyfer chi. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dilyn llwybr William Morgan ac yna Griffith Jones neu Mari Jones yn dibynnu ar eu doniau a'r hyn y mae'r esgobaeth yn gofyn i ni weithio arno gyda chi, ym mha bynnag drefn sy'n gwneud synnwyr. Yn achlysurol, bydd y rhai nad ydynt yn hyfforddi ar gyfer

gweinidogaeth bregethwrol yn dilyn llwybr Mari Jones am un flwyddyn a llwybr Griffith Jones y flwyddyn ganlynol.

Yr Esgob William Morgan

Mae cwrs y flwyddyn hon yn eich cyflwyno i sgiliau gweinidogaethol sylfaenol, gyda phwyslais ar ddysgu sut i bregethu a sut i lunio ac arwain gwasanaethau. Cewch eich cyflwyno i sgiliau bugeiliol sylfaenol fel gwrando. Byddwch yn dysgu am ddulliau seicolegol sylfaenol i'n help i ddeall pobl o bob oedran yn well. Byddwch yn dysgu am wasanaethau pob oed a gwasanaethau mewn ysgolion. Cewch hefyd eich cyflwyno i ddulliau mwy arloesol a chreadigol gan ystyried beth yw carism arloesi, a sut i ddatblygu cymunedau eglwysig newydd.

Griffith Jones (Llanddowror)

Mae'r flwyddyn hon yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn eich blwyddyn gyntaf. Eleni byddwch yn canolbwyntio i ddechrau ar sut i ddatblygu cymunedau Cristnogol newydd, gyda chwrs wedi'i ddylunio'n arbennig a gaiff ei gyflwyno yn yr ysgol haf. Yn ystod y penwythnosau preswyl byddwch hefyd yn datblygu eich sgiliau pregethu gan balu'n ddyfnach i strwythurau pregethau a phwysigrwydd adrodd storïau. Byddwch yn edrych ar sut i ddatblygu timau a sut i fod yn ymwybodol o bŵer a phersonoliaeth. Byddwch hefyd yn dysgu am iechyd emosiynol ac iechyd meddwl a sut i hyfforddi aelodau o'ch cynulleidfa i ofalu'n fugeiliol am eraill, yn anffurfiol neu fel rhan o dimau.

Mari Jones

Mae'r flwyddyn hon yn adeiladu ar y syfleini a osodwyd yn eich blwyddyn gyntaf. Byddwch yn canolbwyntio yn yr ysgol haf ar yr heriau bugeiliol ac efengylaidd a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil ymgysylltu â phobl o wahanol oedrannau a gwahanol genedlaethau. Byddwch yn dysgu sut i greu diwylliant arloesol, yn ogystal â sut i arloesi yn yr 'anialwch'. Byddwch yn dysgu sut i bregethu'n efengylaidd yn ogystal â chreu gwasanaethau sy'n fwy efengylaidd fwriadol. Cewch eich cyflwyno i ddamcaniaethau seicolegol a fydd yn eich addysgu am ofal bugeiliol yn ogystal â sut mae cynulleidfaoedd yn gweithio.

Mae'r ddau faes olaf, **lleoliadau** a **chelloedd ffurfiannol** yn rhan bwysig o'r llawlyfr hwn.

Lleoliadau

Y tiwtor sy'n gyfrifol am leoliadau yw'r Tiwtor Ffurfiant Cyd-destunol, y Parchedig Chris Thomson. Gellir Cysylltu ag ef ar: Chris.thomson@stpadarns.ac.uk

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth hollbwysig ar gyfer ymgeiswyr a goruchwylwyr am rôl lleoliadau o fewn hyfforddiant. Mae'r holl ffurflenni ar gael ar

ddiwedd y llawlyfr, fodd bynnag, gellir darparu'r ffurflenni ar wahân ac maent ar gael ar Moodle. Maent ar gael yn y ddwy iaith a gellir eu llenwi yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Yn ein lleoliadau, mae ein hymgeiswyr yn cael profiad gwerthfawr fel aelod o dîm gweinidogaeth o dan oruchwyliaeth gweinidog profiadol. Fel rheol, mae lleoliad yn para drwy gydol y cwrs, gan fod hyn yn caniatáu ymgysylltiad dwfn â chyd-destun, cymuned a chenhadaeth yr eglwys ac yn helpu ymgeiswyr i ddatblygu gwytnwch a dealltwriaeth wrth iddynt ymdrin â materion yn y gymuned, yn hytrach na chrafu'r wyneb a symud yn eich blaen. Fodd bynnag, efallai y byddwn hefyd yn trefnu 'profiad gweinidogaeth' tymor byr i ategu'r profiad hwn.

Caiff lleoliadau eu trefnu i ddechrau drwy gytundeb hyfforddi, ac mae hwn yn gyfle i drafod y sgiliau a'r profiad sydd gan ymgeisydd eisoes, a'r sgiliau a'r profiad y mae angen iddynt eu meithrin neu eu datblygu.

Bydd ymgeiswyr llawn amser yn treulio **dau ddiwrnod cyfan yr wythnos ar leoliad a bydd ymgeiswyr rhan amser yn cymryd rhan yn eu lleoliadau am o leiaf bedair awr yr wythnos**. Mae hyblygrwydd o ran sut i drefnu hyn, ond yn gyffredinol:

- Rydym o ddifrif ynglŷn â'r cysyniad o gael un diwrnod i ffwrdd bob wythnos. Ar ôl penwythnos preswyl rydym yn argymell yn gryf bod ymgeiswyr llawn amser yn cymryd diwrnod i ffwrdd ar y dydd Llun neu'r dydd Mawrth a dim ond yn treulio un diwrnod ar leoliad yr wythnos honno NEU ar gyfnodau prysur efallai y bydd angen iddynt gymryd y diwrnod gwaith hwnnw fel diwrnod astudio. Er bod hyn yn fwy cymhleth i ymgeiswyr rhan amser, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser, rydym yn argymell yn gryf bod ymgeiswyr rhan-amser yn cymryd saib o weithgareddau lleoliad y penwythnos canlynol. (Mae'r dyddiadau ar ddiwedd y llawlyfr hwn). Byddem yn gofyn i oruchwylwyr lleoliadau fod yn arbennig o sensitif a hyblyg ynghylch llwyth gwaith adeg y cyfnodau preswyl, yn ogystal ag adegau pan fydd angen cyflwyno aseiniadau.

- Hoffem i ymgeiswyr brofi o leiaf un Wythnos Sanctaidd lawn a'r Pasg a Nadolig cyfan ar leoliad mewn eglwys yn ystod eu cyfnod hyfforddi, yn enwedig os ydych chi'n ymgeisydd llawn amser. Efallai y bydd angen i ymgeiswyr rhan amser fod yn hyblyg gyda'u horiau ar leoliad yn yr wythnosau yn dilyn y gwyliau hyn i sicrhau nad yw eu llwyth gwaith yn ormodol.

- Er ein bod yn sylweddoli y bydd ymrwymiad ar y Sul yn arferol o wythnos i wythnos, yn dibynnu ar y weinidogaeth y mae'r ymgeisydd yn hyfforddi ar ei chyfer, gall ymgeiswyr rhan amser (yn enwedig) ganfod y gall eu horiau ar leoliad ar gyfer yr wythnos fod ar ddiwrnodau heblaw dydd Sul.

- I ymgeiswyr blwyddyn olaf, mae lleoliadau fel arfer yn dod i ben ganol mis Mai i ganiatáu rhywfaint o amser i ffwrdd y mae mawr ei angen cyn dechrau gweithio fel gweinidog ordeiniedig/trwyddedig.

- Cofiwch fod amser ar leoliad yn cynnwys amser paratoi, a gallai hyn olygu sawl awr yn paratoi pregeth bob tro. Mae angen i ymgeiswyr rhan amser yn enwedig gynllunio'r amser hwn yn ofalus - gellir rhannu'r amser hwn dros sawl wythnos hefyd os yw hyn yn haws.

Dyma'r cyfle i ymgeiswyr gael profiad da yn y weinidogaeth, o ran datblygu ymhellach feysydd y mae ganddynt sgiliau ynddynt eisoes, a hefyd o ran dysgu sgiliau gweinidogaeth cwbl newydd. Bydd disgwyl iddynt gyfrannu'n llawn at fywyd y gymuned, gan addoli'n rheolaidd yn y cyd-destun hwnnw a dod yn rhan o dîm y weinidogaeth yno. Mewn rhai achosion, bydd timau o ymgeiswyr yn gweithio gyda'r un goruchwyliwr. Gall hyn fod yn ffordd dda o ddatblygu sgiliau gweithio fel rhan o dîm.

I ymgeiswyr

Disgwyliwn i chi:

- Gael amrywiaeth o brofiadau yn y weinidogaeth rydych chi'n hyfforddi ar ei chyfer, naill ai'n cael eich goruchwylio'n uniongyrchol (ac yn cysgodi'r gweinidog) neu fel sy'n briodol yn cyflawni rhai tasgau ar eich pen eich hun ond o dan oruchwyliaeth gyffredinol y goruchwyliwr

- Cael cyfle i fyfyrio ar eich gweinidogaeth â'ch goruchwyliwr mewn sesiynau rheolaidd (8-12 y flwyddyn).

- Rhoi cynnig ar sgiliau newydd e.e. pregethu, arwain addoliad, arwain prosiectau os yw'n briodol

- Cymryd rhan yn ymgysylltiad yr eglwys â'r gymuned ehangach, gan feithrin perthnasoedd ac ymchwilio i fathau priodol o genhadu ac efengylu yn y cyd-destun hwnnw.

- Bod yn aelod o Dîm Gweinidogaeth (ar ba bynnag ffurf - mae gan bob esgobaeth drefniadau gwahanol).

- Myfyrio ar gyd-destun a heriau gweinidogaeth a chenhadaeth yn yr ardal

Byddwch yn gyfrifol am:

- fod yn rhan o fywyd eglwys/ardal y lleoliad **drwy gydol y flwyddyn** (ar wahân i wyliau personol). Nid yw lleoliadau Athrofa Padarn Sant (yn yr un modd ag agweddau eraill ar hyfforddiant) yn dilyn tymhorau prifysgol mwyach.

- cymryd cyfrifoldeb am eich dysgu eich hun.

- rhoi'r gorau i weinidogaeth yr ydych wedi ymgymryd â hi o'r blaen yn eich cyn blwyf/eglwys/ardal. Siaradwch â Chris os yw hyn yn aneglur neu'n peri problem er mwyn cael ei gefnogaeth. (Mae trefniadau gwahanol yn berthnasol i weinidogion lleol digyflog a fydd yn parhau i weinidogaethu a hyfforddi yn eu hardal leol, ond mae'n dal yn bwysig ystyried yr hyn sydd angen ymrwymo iddo a pha fyfyrdod sydd angen digwydd er mwyn symud o un weinidogaeth i'r llall.)

- cael cytundeb gan oruchwyliwr eich lleoliad ar gyfer unrhyw gyfrifoldebau neu weithgareddau gweinidogol eraill yn yr ardal nad ydynt o bosibl yn ymwybodol ohonynt (maen nhw'n goruchwylio eich lleoliad sy'n golygu bod angen iddynt fod yn monitro eich llwyth gwaith a bod yn ymwybodol o'ch holl weithgareddau).

- sicrhau bod yr holl ffurflenni'n cael eu cyflwyno'n brydlon.

Arweiniad i ymgeiswyr ar fyfyrdod

Gallai hyn fod yn strwythur defnyddiol ar gyfer eich dyddiadur:

Cwestiynau i gynorthwyo myfyrdod

Tasg y weinidogaeth
Beth wnes i ei sylwi?
Sut aeth hi?
Beth ddysgais i?
Sut wnes i ddod i gysylltiad â Duw?
Sut mae fy ffydd wedi tyfu neu newid?
Sut wnes i alluogi eraill i dyfu yn eu ffydd neu ddod i gysylltiad â Duw mewn ffyrdd newydd?
Beth fyddwn i'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
Sut wnes i alluogi gweinidogaethau pobl eraill?

Pregethu

Dylai ymgeiswyr sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu o leiaf **6 gwaith y flwyddyn** a chael adborth gan aelodau'r gynulleidfa a goruchwylwyr gan ddefnyddio'r ffurflen asesu pregeth. Er mwyn cael sawl persbectif gwahanol, byddai'n braf pe bai o leiaf dair pregeth wahanol yn cael eu hasesu gan y goruchwyliwr, ac o leiaf dair pregeth

yn cael eu hasesu gan aelodau'r gynulleidfa. Os yn bosibl, byddai'n dda pe bai yr un bregeth yn cael ei hasesu gan y goruchwyliwr (neu bregethwr profiadol arall) ac aelodau'r gynulleidfa, ond rydym yn ymwybodol y gallai hyn fod yn anodd weithiau. Yna dylid anfon y ffurflen yn electronig os yn bosibl i Reporting@stpadarns.ac.uk gyda chopi at eich tiwtor ffurfiant. Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod chwe set o adborth ar bregethau bob blwyddyn yn y ffeiliau.

I'r goruchwyliwr

Rydym yn eich ystyried yn bartneriaid allweddol yn ffurfiant yr ymgeisydd ac rydym yn cymryd eich barn a'ch mewnwelediad o ddifrif. Yn wir byddwn yn dibynnu arnynt! Mae gennych hefyd ran allweddol i'w chwarae mewn datblygu sgiliau gweinidogol yr ymgeisydd yn ogystal â'u gwerthuso. Yn y gorffennol byddai ymgeiswyr yn cysgodi gweinidogion a phrin iawn y byddent yn gweinidogaethu eu hunain. Fodd bynnag, mae ein hymgeiswyr fel arfer yn dechrau eu hyfforddiant gyda chyfoeth o brofiad arwain a phrofiad o weinidogaethu, yn aml yn y gweithle, mewn bywyd teuluol a chymunedol yn ogystal â'r eglwys, felly mae'n bwysig adeiladu ar y profiadau hyn a'u defnyddio'n llawn o fewn cenhadaeth a gweinidogaeth eich plwyf, eich eglwys neu ardal y genhadaeth/gweinidogaeth.

Fel goruchwyliwr lleoliad, rydych yn gyfrifol am:

- groesawu'r ymgeisydd i'r Tîm Gweinidogaeth fel aelod llawn a gwerthfawr
- trafod y disgwyliadau a chwblhau'r cytundeb lleoliad gyda thiwtor a'r ymgeisydd
- rhoi cyfleoedd i'r ymgeisydd ymgymryd â thasgau sy'n gysylltiedig â'r weinidogaeth y mae'n ei datblygu
- galluogi'r ymgeisydd i fod yn rhan o unrhyw brosiectau sy'n cael eu cynnal gan Ardal y Weinidogaeth ac i gymryd cyfrifoldeb am agweddau ar hyn os yw'n briodol
- galluogi'r ymgeisydd i fyfyrio'n ehangach ar fywyd a gwaith Ardal y Weinidogaeth, yr heriau y mae'n eu hwynebu a'r ffyrdd y mae dealltwriaeth o'r weinidogaeth a chenhadaeth yn llywio arfer
- adrodd ar gynnydd yr ymgeisydd i Athrofa Padarn Sant
- cysylltu ag Athrofa Padarn Sant os bydd unrhyw faterion yn codi
- rhoi adborth defnyddiol, gonest a heriol
- cwrdd â'r ymgeisydd mewn sesiynau goruchwylio rheolaidd, o leiaf 8 y flwyddyn.

Yn ogystal, byddai'n ddefnyddiol pe gallech:

- feddwl am unrhyw fylchau a allai fod gan yr ymgeisydd, a siarad â ni am drefnu profiad gweinidogaethol tymor byr

- ystyried a ellid llenwi rhai o'r bylchau hynny o fewn eich ardal neu'ch tîm chi e.e. byddwch yn rhagweithiol o ran trefnu profiadau creadigol e.e. gyda gweinidogion lleyg neu weinidogion ordeiniedig eraill yr ydych yn gweithio â nhw, neu ryw agwedd ar weinidogaeth yr ardal ehangach y gallai'r ymgeisydd elwa o gael profiad ohoni. (Er bod gennym ddiddordeb mewn clywed am y profiadau hyn, nid oes angen trefnu'r rhain yn ffurfiol gyda ni, fel y gwneir gyda phrofiad gweinidogol tymor byr).

- cadw llygad ar lwyth gwaith yr ymgeisydd. Weithiau rydym yn canfod y gall llwyth gwaith ymgeiswyr fod yn ormodol mewn lleoliad, neu efallai na wneir defnydd digonol ohonynt, sy'n gallu bod yr un mor rhwystredig. Gofynnwn i chi gadw at y trefniadau o oddeutu 4 awr yr wythnos ar gyfer ymgeisydd rhan-amser, a chyfnod sy'n cyfateb i ddau ddiwrnod gwaith (gan gynnwys dydd Sul fel arfer) ar gyfer ymgeiswyr llawn amser.

Profiadau Pellach yn y Weinidogaeth

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'ch ymgeisydd fagu profiad ehangach o fywyd eglwysig neu'r weinidogaeth. A oes bwlch ym mhrofiad yr ymgeisydd nad yw eich lleoliad yn ei lenwi? Efallai y bydd y goruchwyliwr neu un o'r tiwtoriaid yn awgrymu 'profiad o'r weinidogaeth'. Gallai hyn gynnwys cyfnod byr mewn ysbyty neu hosbis neu garchar neu ysgol neu fynegiant newydd o'r eglwys. Caiff ymgeiswyr eu hannog i feddwl ble mae eu blychau a siarad â'u goruchwyliwr lleoliad a fydd efallai yn gallu trefnu rhywbeth yn lleol, neu siarad â'u tiwtor personol neu Chris Thomson a fydd yn gallu awgrymu profiadau eraill.

Rydym wrthi'n datblygu profiadau gweinidogol drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf neu brofiadau gweinidogol dwyieithog mewn ardaloedd, ardaloedd gwledig a chaplaniaeth. Os yw ymgeiswyr yn dymuno manteisio ar hyn, dylent siarad â Chris.

Ffurflenni a Rhestrau Gwirio ar gyfer Lleoliadau

Mae'r holl ffurflenni ar ddiwedd y llawlyfr hwn. Gallwch ddod o hyd i'r rhestr wirio flynyddol a'r dyddiadau ar ddechrau'r llawlyfr.

Celloedd Ffurfiannol

Yn ystod yr hyfforddiant byddwch yn ymuno â Chell Ffurfiannol. Y Parchedig Dr Jordan Hillebert sy'n gyfrifol am gelloedd ffurfiannol. Y grŵp hwn, lle mae pawb yn cefnogi ei gilydd, yw'r lle i ystyried sut rydych chi'n integreiddio pob agwedd ar eich ffurfiant, boed hynny'n sut rydych chi'n tyfu ac yn cael eich herio'n ysbrydol, newid yn eich perthnasoedd, y sgiliau gweinidogaeth rydych chi'n eu datblygu neu'ch dysgu

diwinyddol. Y peth allweddol yw eich bod yn gallu cysylltu'r holl agweddau hyn ar ffurfiant gyda'i gilydd, ac mae'r gell yn lle pwysig i wneud hyn.

Bydd y rhai sydd ar gwrs hyfforddi llawn amser yn cyfarfod bob pythefnos ag aelodau o'u cell yn Athrofa Padarn Sant, Caerdydd. Bydd y rhai sydd ar gwrs hyfforddi rhan amser yn ymuno â grŵp o bobl sy'n hyfforddi yn eu hardal ac yn cyfarfod â'r grŵp hwnnw o leiaf wyth gwaith drwy gydol y flwyddyn. Mae'r celloedd yn cael eu hwyluso gan Dywysydd Ffurfiannol wedi'i hyfforddi a fydd hefyd yn adrodd yn flynyddol ar eich cynnydd, ond nid fel rheol ar fanylion yr hyn a rennir yn y grwpiau.

Mae mewnwelediadau Joanna Collicutt yn ei llyfr *The Psychology of Christian Character Formation* yn sail i'n dealltwriaeth o Gelloedd Ffurfiannol, a holl broses ffurfiant mewn gwirionedd. Mae'n nodi:

> Christian spiritual formation can be understood as the transforming work of the Spirit in every aspect of the life of the believer..... First, formation is seen to involve the whole of a person's life – embodied thinking, feeling, acting and being in relationship. Second, as Paul asserts in.....2 Corinthians, because of the nature of the Spirit, formation results in freedom. (Collicutt 2015 pennod 1).

Mae Collicutt yn diffinio'r rhyddid hwn fel:

> The work of the Spirit is not to change a person into something she is not, but to enable that person to be truly and fully herself. The Spirit is, after all, also the authentic Spirit of truth (John 14.17; 15.26; 16.13). (Collicutt 2015 pennod 1).

Fel rheol ni fydd y Gell yn cynnwys mwy na 5 o bobl a dim llai na 3 o bobl.

Nodau Celloedd Ffurfiannol

Prif nodau ffurfiannol y gell yw:

- Meithrin mwy o hyder a sgiliau wrth hunanfyfyrio (asesu eich cryfderau a'ch gwendidau eich hun, ymchwilio i gredoau/tybiaethau a allai fod wedi arwain at gamau/ymateb emosiynol penodol, etc.)
- Integreiddio'r amrywiol agweddau ar hyfforddiant a ffurfiant (ymchwilio i sut mae eich daliadau/astudiaethau diwinyddol wedi llywio eich gweinidogaeth ac i'r gwrthwyneb, beth rydych chi wedi'i ddysgu amdanoch chi eich hun neu am Dduw ar eich lleoliad, etc.)
- Meithrin mwy o hyder a sgiliau o ran gwrando'n astud (crynhoi'n gywir yr hyn a glywyd, gofyn cwestiynau defnyddiol/perthnasol, dangos gofal a pharch, amlygu meysydd twf neu botensial ar gyfer datblygiad pellach, etc.)
- Bod yn fwy agored (caniatáu i chi eich hun gael eich adnabod, ceisio dysgu gan eraill, myfyrio ar faterion sydd heb eu datrys, etc.)
- Cyfrannu at ffurfiant pobl eraill (darparu anogaeth, her briodol, etc.)

Rydym yn disgwyl i bob aelod o'r grŵp:

- Ei gwneud hi'n flaenoriaeth i fod yn bresennol
- Paratoi gan sicrhau bod ganddynt rywbeth go iawn i'w rannu
- Bod yn barod i gyfrannu'n gadarnhaol at ffurfiant eraill yn y grŵp
- Parchu cyfrinachedd y grŵp. Nid oes gan unrhyw aelod o'r grŵp fyth hawl i siarad am ddeunydd rhywun arall mewn unrhyw gyd-destun. (Byddai torri cyfrinachedd yn y modd hwn yn fater ffurfiannol difrifol ac yn ddarostyngedig i'n polisïau ymddygiad ymgeiswyr yn ystod hyfforddiant).

Dylai'r grŵp ddechrau bob blwyddyn drwy ailedrych ar y disgwyliadau hyn a chytuno arnynt gyda'i gilydd.

Strwythur y Cyfarfod

1. Addoli agoriadol anffurfiol i'w rannu ymhlith ymgeiswyr

2. Rhannu profiad diweddar yn unigol - mae gan bob aelod o'r Gell Ffurfiannol gyfanswm o 20-25 munud i gyflwyno rhywbeth yr ydych yn ei ystyried yn arwyddocaol yn eich ffurfiant. Gallai hyn fod yn rhywbeth sydd wedi digwydd ar leoliad, traethawd sy'n peri anhawster i chi, sgwrs bwysig â chyfoedion neu diwtor neu oruchwyliwr, rhywbeth newydd yr ydych wedi'i ddysgu amdanoch chi eich hun, neu hyd yn oed sgil newydd. Cofiwch fyfyrio ar faterion cadarnhaol yn ogystal â'r materion anoddach y gallech fod wedi dod ar eu traws.

3. Aelodau'r grŵp yn ymateb - drwy ofyn cwestiynau i helpu'r unigolyn i ymchwilio i'r materion. Gall hyn helpu i roi eglurder neu ddyfnhau'r profiad ffurfiant. Ceisiwch beidio â chynnig cyngor ond gadewch i'r unigolyn archwilio ei brofiad yn llawn. Gall aelodau'r grŵp hefyd roi adborth ar gryfderau a/neu'r potensial ar gyfer twf yn y dyfodol.

4. Cofiwch mai dyma'r lle i integreiddio'r hyfforddiant. Byddwch yn ymwybodol o gysylltiadau diwinyddol ac ysbrydol â'r hyn sy'n cael ei rannu. A oes goblygiadau neu gyseiniannau ymarferol neu alwedigaethol â'r hyn rydych chi'n ei ddysgu neu'n ei astudio?

5. Efallai y bydd yn briodol dod ag amser pob unigolyn i ben â gweddi, boed hynny mewn geiriau neu ddistawrwydd cyn symud at y person nesaf. Neu, gall grwpiau benderfynu gweddïo dros y naill ar llall ar ddiwedd cyfarfod y gell.

6. Gweddi i gloi

Nodyn ynglŷn â chyfrinachedd o fewn Celloedd Ffurfiannol

Er bod y cyfarfodydd yn gyfrinachol yn yr ystyr nad ydym yn disgwyl i ymgeiswyr siarad am yr hyn a drafodir y tu allan i'r gell, bydd Arweinydd y Cell Ffurfiannol yn rhoi adborth fel rhan o broses adrodd ar ffurfiant pob ymgeisydd. Y lle y gallwch siarad yn hollol rydd a chyfrinachol y tu allan i'r cwrs yw gyda'ch Cyfarwyddwr Ysbrydol. Rydym yn annog pob ymgeisydd yn gryf i gael cydymaith ysbrydol, boed yn Gyfarwyddwr Ysbrydol, neu'n fentor doeth y gellir ymddiried ynddo. (Mae rhagor o wybodaeth am gyfarwyddwyr ysbrydol a'n polisi cyfrinachedd ar ddiwedd y llawlyfr hwn.)

Llyfryddiaeth

Collicutt, Joanna. (2015) **The Psychology of Christian Character Formation.** Llundain: Hymns Ancient & Modern Ltd. Rhifyn Kindle.

Adrodd ar Ffurfiant

Agwedd bwysig ar ffurfiant fydd y cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir rhyngoch chi a'ch tiwtor ffurfiant er mwyn trafod a diweddaru'r cofnod ffurfiant. Bwriedir i'r cyfarfodydd hyn fod yn heriol, gonest a chefnogol ac yn fforwm allweddol ar gyfer eich datblygiad a'ch twf fel gweinidog. Disgwylir y bydd y tiwtor ffurfiant yn cyfarfod â phob ymgeisydd am rhwng 30 munud ac awr dair i bedair gwaith y flwyddyn. Gall hyn fod yn ystod cyfnod preswyl.

Bydd y cofnod ffurfiant hwn hefyd yn llywio ein hadborth i'ch esgob yng 'nghyfarfod adolygu ymgeisydd' chwe misol pob esgobaeth ac yn y pen draw bydd yn darparu tystiolaeth ar gyfer eich adroddiad i'r esgob. Ceir enghraifft o'r ffurflen yng nghefn y llawlyfr hwn.

Strwythur y cyfarfodydd

1. Gweddi
2. Cyfle byr i gael sgwrs am ymarferoldeb hyfforddiant
3. Yr ymgeisydd yn mynegi ei obeithion ar gyfer y cyfarfod, lle yr hoffai gyrraedd erbyn diwedd y cwrs.
4. Y tiwtor a'r ymgeisydd yn penderfynu pa faes (feysydd) i'w d/trafod yn y meini prawf
5. Trafodaeth ar ffurfiant yr ymgeisydd yn y maes hwn/meysydd hyn
6. Trosglwyddo'r drafodaeth i Dduw drwy weddi

Mae gennym ddiddordeb hefyd yn eich cryfderau a'ch gwendidau a sut rydych yn datblygu ac yn tyfu fel gweinidog. Wrth feddwl am hyn efallai yr hoffech chi fyfyrio ar ganlyniadau dysgu yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y gwahanol weinidogaethau. Cwestiwn pwysig i ni felly yw sut yr ydych ynn ymateb i adborth, ac weithiau er mwyn ymgysylltu â'r cofnod ffurfiant efallai y byddwn yn defnyddio Ffenestr Johari hefyd -

pa argraff ydych chi'n ei rhoi efallai heb sylweddoli hynny, sy'n effeithio ar eich gweinidogaeth?



Cynhelir y sgyrsiau hyn yn yr ysbryd fod gyda chi yn ystod eich ffurfiant. Rydym i gyd yn tyfu ac yn datblygu fel disgyblion a gweinidogion. Mae croeso i chi edrych ar eich Cofnod Ffurfiant ar unrhyw gam o'ch hyfforddiant.

Adroddiadau i'r Esgob

Rydych yn hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth gydag Athrofa Padarn Sant am fod eich esgob wedi eich **noddi** (fel arfer ar argymhelliad bwrdd taleithiol neu ranbarthol). Rydym yn cymryd y nawdd hwn o ddifrif, ac mae'r Prifathro a'r Deon yn adrodd ar eich cynnydd mewn cyfarfod adolygu ymgeisydd bob chwe mis gyda phob Esgob, ac mewn adroddiad ffurfiol, fel arfer yn ystod eich blwyddyn olaf. Bydd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar eich cofnod ffurfiant a'r sgyrsiau a gawsoch gyda'ch tiwtor ac er mwyn ysgrifennu eich adroddiad byddwn yn defnyddio'r rhain fel tystiolaeth, ynghyd ag adroddiadau gan eich arweinydd cell ffurfiannol a'ch goruchwyliwr lleoliad. Mae'r broses hon fel arfer yn digwydd ym mis Rhagfyr yn ystod eich blwyddyn olaf.

Ym mis Tachwedd yn ystod eich blwyddyn olaf byddwn yn gofyn i chi ysgrifennu hunanasesiad a byddwn yn dechrau casglu'r adroddiadau eraill yn ogystal â choladu'r adroddiadau a'r adborth pregethu sydd gennym eisoes. I'r rhai sydd ar raglen blwyddyn, bydd hyn yn digwydd yn ystod mis Mawrth.

Bydd eich tiwtor yn ysgrifennu drafft o'r adroddiad ar ddiwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr ac yn ei anfon at y Deon am ei sylwadau ac at y Prifathro i'w gymeradwyo. Yna byddwn yn ei rannu â chi a bydd cyfle i ychwanegu sylwadau neu, ar achlysuron prin iawn, cytuno ar unrhyw newidiadau.

Adroddiadau arbennig

Yn achlysurol, efallai y bydd Esgobion yn gofyn am adroddiad arbennig, a gallai hyn fod am amryw o resymau - efallai bod ffurfiant wedi dilyn llwybr gwahanol neu'n symud ymlaen mewn ffordd wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd. Gallai fod pryderon ynghylch ffurfiant ymgeisydd neu gwestiynau ynghylch lle i'w leoli yn y dyfodol. Weithiau bydd yr Esgob yn ceisio cyngor ynghylch a ddylid parhau i noddi ymgeisydd ai peidio. Byddwn bob amser yn rhannu'r adroddiad â chi a bydd cyfle bob amser i drafod newidiadau ac ychwanegu sylwadau.

Os yw'n debygol y bydd adroddiad arbennig yn codi cwestiynau i'r Esgob ynglŷn â pharhau i noddi ymgeisydd, y broses arferol fydd:

1. Codi pryder ynghylch ffurfiant ymgeisydd naill ai gan diwtor, goruchwyliwr lleoliad, hwylusydd neu dywysydd ffurfiannol.
2. Os bydd hyn yn parhau i fod yn destun pryder ar ôl ceisio rhoi adborth i'r ymgeisydd, bydd y tiwtor yn cael cyfarfod un i un gyda'r ymgeisydd.
3. Os bydd y mater yn parhau i fod yn destun pryder ar ôl rhoi adborth, bydd y tiwtor a'r Deon neu'r Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig yn cyfarfod â'r ymgeisydd. Gall yr ymgeisydd ddod â ffrind neu gefnogwr gydag ef.
4. Bydd y tiwtor a'r Deon yn penderfynu a ddylid rhannu'r pryderon ag esgob yr ymgeisydd ar ffurf adroddiad arbennig ai peidio, drwy ymgynghori â'r Pennaeth.
5. Os penderfynir ysgrifennu adroddiad arbennig, cynhelir cyfarfod pellach i rannu cynnwys yr adroddiad gyda'r ymgeisydd.
6. Anfonir yr adroddiad at yr esgob a all argymell camau gweithredu amrywiol neu hyd yn oed argymell tynnu nawdd yn ôl.

Cefnogaeth a chymorth bugeiliol

Rydym yn deall y gall ffurfiant fod yn gyfnod anodd oherwydd materion a allai godi, neu efallai y bydd pethau eraill yn eich bywyd y mae'n rhaid i chi ddelio â nhw hefyd. Cofiwch roi gwybod i ni os allwn ni fel tiwtoriaid helpu mewn unrhyw ffordd.

Rydym hefyd yn ymwybodol efallai y bydd pethau rydych chi am eu trafod sy'n gwbl gyfrinachol ac ar wahân i'r broses ffurfiant. Byddem yn eich annog i gael cyfarwyddwr ysbrydol (mentor hyfforddedig a fydd yn cyfarfod â chi i drafod eich bywyd gweddi) ac efallai y bydd y cysylltiadau canlynol yn gallu helpu hefyd:

Mynwy
Y Parchedig Jane Butler jane.upperislwyn@yahoo.com 01495 231241

Tyddewi
Y Parchedig Andrew Johnson randrewj@btinternet.com 01646 636966

Bangor
Y Parchedig Janet Fletcher revjfletcher@btinternet.com 01654 711792

Llandaf
Y Parchedig Edward Dowland-Owen vicar@parishofmargam.org.uk

Abertawe ac Aberhonddu
Nid yw'r wybodaeth ar gael ar hyn o bryd.

Llanelwy
Parch Richard Carter reverendcarter@gmail.com

Mae gennym hefyd gaplaniaid sydd ar gael i ddarparu cymorth bugeiliol cyfrinachol, sef:

Y Parchedig Dr Jane Wallam Girdlestone

Mae Jane wedi'i lleoli yn Esgobaeth Llanelwy ac mae'n arbenigo mewn ysbrydolrwydd Cristnogol (y bu'n ei addysgu yn y Scottish Episcopal Institute). Bu'n gweithio fel caplan iechyd aciwt ac iechyd meddwl am flynyddoedd lawer, ac mae'n gyfaill enaid hyfforddedig, yn therapydd chwarae ac yn seicotherapydd. Mae gan Jane angerdd tuag at ddiwinyddiaeth anabledd ac mae wedi addysgu Moeseg, Seicoleg Crefydd, a Diwinyddiaeth Ymarferol yng Ngholeg St Michael a'r Queen's Foundation. Mae hefyd yn ysgrifennu straeon a barddoniaeth ac yn arddangos celfyddyd gain. Ond yn bwysicach...mae ganddi gi o'r enw Obi Wan Kenobi ▪

Gallwch gysylltu â Jane dros e-bost neu dros y ffôn ar:
janewallmangirdlestone@gmail.com
07776181824

Melanie Prince
Mae Melanie Prince wedi gwasanaethu ei gweinidogaeth gyfan (23 mlynedd) yn Esgobaeth Llandâf ac ar hyn o bryd mae'n Offeiriad â Gofal Plwyf Porthkerry, Rhoose a Penmark. Mae hi wedi bod yn gaplan ym Mhadarn Sant am y 5 mlynedd diwethaf ac mae'n mwynhau cefnogi myfyrwyr a staff trwy weddi, sgyrsiau anffurfiol ac

amseroedd gwrando mwy cynlluniedig. Mae hi'n gobeithio bod yn rhannu addoliad a bwyd gyda'r gymuned amser llawn yn y coleg unwaith bob pythefnos, gydag amser wedi hynny ar gyfer apwyntiadau, ond gellir cysylltu â hi ar 07790440117 neu maprince77@gmail.com i drefnu amser i gwrdd yn bersonol neu dros Zoom y tuar adegau eraill. Mae hi bob amser yn hapus i weddïo a chynnig cefnogaeth, a chan nad yw hi ar staff St Padarns nid oes gwrthdaro buddiannau â hyfforddiant / cyflogaeth.

Rydym hefyd yn chwilio am gaplan ychwanegol i ymuno â'r tîm a byddwn yn eich diweddaru gyda'i wybodaeth maes o law.

Gallwn hefyd drefnu therapi neu wasanaeth cwnsela. Yn yr amgylchiadau hyn byddwn fel arfer yn cyfeirio ymgeiswyr at seicotherapydd arbenigol i gael eu hasesu er mwyn i ni drefnu'r cymorth gorau posibl. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, siaradwch â'ch tiwtor neu'r Cyfarwyddwr Ffurfiant. Rydym yn trin unrhyw asesiadau yn gwbl sensitif a chânt oll eu cadw mewn ffeil gyfrinachol sydd ond ar gael i nifer cyfyngedig o staff Athrofa Padarn Sant. Dim ond ar sail yr angen i wybod y caiff gwybodaeth gyfrinachol o'r fath ei rhannu.

Mae gennym hefyd *Gronfa Caledi'r Prifathro* sy'n gallu helpu ymgeiswyr, fel arfer y rhai sy'n hyfforddi llawn amser a heb ffynhonnell incwm arall. Mae hyn fel arfer ar gael ar gyfer cost nad oedd modd ei rhagweld e.e. bil mawr annisgwyl ar gyfer car, problemau cyfrifiadurol ac ati. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan eich tiwtor a fydd yn gwneud cais ar eich rhan. Mae'r gronfa ar gael ar gyfer y rhai sydd mewn gwir angen, ac mae'n bosibl gwneud cais i'r gronfa fwy nag unwaith yn ystod eich hyfforddiant.

Dysgu Cymraeg

Mae gennym bartneriaeth gyda'r cwrs Say Something in Welsh, ac os na allwch siarad Cymraeg rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd llawn amser gofrestru ar y cwrs hwn, y fersiwn chwe munud y dydd, er mwyn gwella eich sgiliau ieithyddol. Cynigir y cwrs hwn i bob ymgeisydd rhan-amser hefyd. Os hoffech gael rhagor o gyfleoedd i ddatblygu eich sgiliau siaradwch â'ch tiwtor oherwydd gall cyllid a / neu gyfleoedd ychwanegol fod ar gael.

Y Rhaglen Dydd Mercher – Dydd Gwener (Ymgeiswyr Llawn Amser)

Mae'r rhai sy'n hyfforddi'n llawn amser yn Athrofa Padarn Sant yn cwrdd 30 wythnos y flwyddyn yn yr athrofa yng Nghaerdydd ar gyfer ein rhaglen dydd Llun-dydd Gwener. Mae'r rhaglen yn dechrau bob dydd Mercher gyda Chymundeb agoriadol (am 11:45am ar hyn o bryd) a daw i ben gyda chinio (am 12:30pm ar hyn o bryd) ar ddydd Gwener. Yn ogystal ag astudiaeth ddiwinyddol (gweler tud 6) a chelloedd ffurfiannol (gweler

tud. 10-12), mae'r rhaglen lawn amser yn canolbwyntio ar addoli, y gymuned a chyfleoedd dysgu ychwanegol.

Addoli

Mae'r rhan fwyaf o'r addoli yn y rhaglen llawn amser yn cael ei arwain gan yr ymgeiswyr. Caiff y gymuned ei rhannu'n 3-4 grŵp addoli, gyda phob grŵp yn gyfrifol am yr addoli mewn wythnos benodol. Cyn yr wythnos addoli, bydd y grŵp yn cwrdd ag aelod o staff i ystyried addoli yn gyffredinol ac i gynllunio'r addoli ar gyfer yr wythnos ganlynol. Yna bydd y grŵp yn cwrdd ag aelod o staff ar ôl ei wythnos addoli i fyfyrio ar yr wythnos a fu ac i feddwl am sut i ddatblygu pethau yn y dyfodol. Mae'r patrwm addoli ar gyfer y gymuned lawn amser fel a ganlyn ar hyn o bryd:

- Dydd Mercher 11:45am: Cymundeb Agoriadol
- Dydd Mercher 5.30pm – Hwyrol Weddi
- Dydd Iau 7.45am: Boreol Weddi
- Dydd Iau 5.30pm: Addoliad i Bob Oed
- Dydd Gwner 7:45am: Boreol Weddi
- Dydd Gwener 12:15pm: Addoliad i Gloi

Cymuned

Mae cymuned wrth galon popeth a wnawn yn Athrofa Padarn Sant, ac mae hyn yn sicr yn cael ei adlewyrchu yn y rhaglen llawn amser. Mae'r gymuned lawn amser yn cyd-fwyta, yn cydaddoli, yn cyd-ddysgu ac yn cyd-gymdeithasu. Yn ogystal ag agweddau ffurfiol ar y rhaglen dydd Mercher-dydd Gwener, mae lle yn y rhaglen i gynnwys cyfarfodydd mwy anffurfiol - grwpiau gweddïo, grwpiau darllen, digwyddiadau cymdeithasol, mynd i'r dafarn ac ati.

Cyfleoedd Dysgu Ychwanegol

Yn ogystal â'r modiwlau academaidd sylfaenol, mae ymgeiswyr llawn amser yn cwrdd bob pythefnos ar gyfer sesiwn 'Arwain Eglwysi Iach' ble mae siaradwr gwadd/ymarferydd yn ymuno i rannu profiadau gyda'r ymgeiswyr a'u hannog i feddwl am amrywiol agweddau ar y weinidogaeth. Mae ymgeiswyr llawn amser hefyd yn cwrdd am Dê Bach, cyfle i ymarfer eu Cymraeg ac i ddysgu mwy am ddiwylliant Cymru. Bob tymor, mae darlithydd gwadd yn ymuno â ni am bryd arbennig gyda'r nos, darlith, a thrafodaeth sy'n gysylltiedig â'i waith ymchwil. Ymysg y cyfleoedd dysgu ychwanegol eraill mae gwersi lleisiol/canu a grwpiau darllen wedi'u harwain gan y staff.

Wythnos Cenhadaeth ac Efengylu

Mae efengylu yn uchel ar agenda'r Eglwys yng Nghymru. Ym mis Mai 2017 pasiodd y Corff Llywodraethol gynnig a oedd yn cynnwys ymrwymiad y Corff Llywodraethol I "gadarnhau lle canolog i efengylu ym mywyd yr eglwys, ac i gefnogi hyfforddiant a adnoddau mewn efengylu fel gofyniad i bob clerig ac fel rhywbeth sydd ar gael i bob person lleyg."

Rhan o'r ffordd y mae Athrofa Padarn Sant yn mynd i'r afael â hyn, ochr yn ochr â'n modiwlau diwinyddiaeth ar genhadaeth, yw rhoi cyfle i bob ymgeisydd llawn amser ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig gymryd rhan mewn o leiaf un Wythnos Cenhadaeth ac Efengylu yn ystod eu hyfforddiant. Bydd yn digwydd yn Wythnos 10 yn y Bloc Dysgu olaf ac mae'n rhan greiddiol o'r rhaglen ffurfiannol ar gyfer bawb sy'n dychwelyd ac yn hyfforddi yn llawn amser (h.y. y rhai nad ydynt yn cael eu hordeinio na'u trwyddedu yr haf hwnnw).

Y flwyddyn nesaf, y dyddiadau fydd 31 Mai i 5 Mehefin 2022, o brynhawn dydd Mawrth tan y prynhawn Sul. Byddwn yn partneru gydag eglwysi lleol mewn lleoliad yng Nghymru i ffwrdd o safle Caerdydd (i'w gadarnhau), a bydd disgwyl i chi aros dros nos am y cyfnod hwnnw. Sylwch fod hyn yn hirach na'r Mercher – Gwener arferol felly efallai y bydd angen i chi gynllunio ar gyfer hyn er enghraifft os oes gennych gyfrifoldebau gofalu.

Mae hwn yn gyfle gwych i ni nid yn unig dyfu yn ein profiad personol o genhadaeth ac efengylu, ond hefyd i weithio gyda'n gilydd fel cymuned llawn amser y tu allan i'r coleg trwy gyfrannu'n ystyrlon at waith parhaus eglwysi lleol. Byddwn yn ymgynnull sawl gwaith trwy gydol y flwyddyn i gynllunio a gweddïo dros hyn.

Polisïau a ble i ddod o hyd iddyn nhw

Gellir gweld polisïau perthnasol yr Eglwys yng Nghymru ac Athrofa Padarn Sant yn adran yr ymgeiswyr ar Moodle (ac mae rhai i'w gweld o dan ddogfennau clerigwyr ar wefan yr Eglwys yng Nghymru). Rhaid i ymgeiswyr gadw at bolisïau'r Eglwys yng Nghymru ac Athrofa Phadarn Sant.

Fodd bynnag, mae'r polisi presenoldeb yn uniongyrchol berthnasol i'ch cofnod ffurfiant ac felly mae wedi'i atgynhyrchu yma hefyd er hwylustod.

Mae copi o'r polisi cyfrinachedd hefyd wedi'i gynnwys yma.

Polisi presenoldeb

Mae presenoldeb yn hanfodol drwy gydol eich hyfforddiant. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi buddsoddi adnoddau sylweddol i hyfforddi gweinidogion drwy Athrofa Padarn Sant. Yn ariannol, mae hyn yn cynrychioli rhodd aberthol aelodau ffyddlon o gynulleidfaoedd ledled Cymru er mwyn gwasanaethu cenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru. Mae presenoldeb felly, yn y lle cyntaf, yn ymwneud ag atebolrwydd i'r Eglwys ehangach yng Nghymru a stiwardiaeth dda ar adnoddau.

Cynlluniwyd gwahanol elfennau'r hyfforddiant yn ofalus i sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael proses ffurfiant gweinidogol drwyadl gan ddefnyddio pedwar maes - dysgu diwinyddol, lleoliadau, cyfnodau preswyl a chelloedd ffurfiannol.

Mae pob agwedd ar hyfforddiant yn hanfodol a bydd colli unrhyw elfen yn arwain o bosibl at brofiad llai o ran hyfforddiant ac at fylchau a fydd yn dod i'r amlwg a fydd yn anodd mynd i'r afael â hwy yn nes ymlaen. Felly, rydym yn disgwyl i chi wneud pob agwedd ar ffurfiant yn flaenoriaeth yn ystod eich cyfnod hyfforddi, ystyried yn ofalus eich gallu i wneud y math hwn o ymrwymiad cyn hyfforddi, a sicrhau hefyd nad yw ymrwymiadau eglwysig eraill yn ymyrryd â'r cyfle pwysig hwn i ymgolli mewn ffurfiant diwinyddol, ymarferol ac ysbrydol. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod sefyllfaoedd yn codi o bryd i'w gilydd sy'n golygu ei bod hi'n anochel y byddwch yn absennol o ryw agwedd ar y broses ffurfiant. Os bydd sefyllfa o'r fath yn codi, mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i'r person perthnasol e.e.

- Salwch - os bydd salwch yn golygu na allwch gyflawni ymrwymiad, rhowch wybod i'r person perthnasol cyn gynted â phosibl. Mae angen rhoi gwybod i'ch tiwtor am gyfnod o salwch sy'n para mwy nag ychydig ddyddiau.

- Anghenion Bugeiliol Tymor Byr - rydym yn sylweddoli bod sefyllfaoedd yn codi o bryd i'w gilydd mewn bywyd teuluol neu bersonol sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi gyflawni ymrwymiad. Rhowch wybod i'r person perthnasol cyn gynted â phosibl, er mwyn iddo allu eich cefnogi hefyd.

- Mater Bugeiliol tymor hwy - os oes unrhyw fater sy'n golygu ei bod hi'n anochel eich bod yn absennol am gyfnod hwy, mae'n hanfodol trafod hyn gyda'ch tiwtor.

Efallai ei bod hi'n aneglur pwy yw'r person perthnasol, felly yn gyffredinol:

Lleoliad - trafodir presenoldeb ac ymrwymiad gyda'r goruchwyliwr. Ar gyfer mater untro, mae'n ddigon rhoi gwybod i'r goruchwyliwr. Fodd bynnag, os yw'n debygol y bydd patrwm tymor hwy, mae'n hanfodol rhoi gwybod i Chris Thomson a'ch tiwtor.

Ffurfiant Diwinyddol - i'r rhai ar y rhaglen rhan amser, disgwylir i chi fod yn bresennol ym mhob diwrnod seminar a grwpiau wedi'u hwyluso. Ar gyfer absenoldeb untro o'r grŵp wythnosol, cysylltwch â'ch hwylusydd, ond os oes problem gyda phresenoldeb rheolaidd, cysylltwch â'ch tiwtor yn yr esgobaeth. Dylid cysylltu â nhw am unrhyw absenoldeb o ddiwrnodau Seminar. O ran y rhaglen llawn amser, cysylltwch â thiwtor y modiwl o ran cwrteisi a'r Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer unrhyw absenoldeb o sesiwn modiwl.

Celloedd ffurfiannol - cysylltwch â'ch tywysydd i esbonio pob absenoldeb.

Cyfnodau preswyl - cwblhewch y ffurflen yn y polisi hwn a'i hanfon at y Deon ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion ac anfonwch gopi at eich tiwtor ffurfiant.

Beth yw goblygiadau colli unrhyw agwedd ar y cwrs?

Byddwn yn cadw cofnod o absenoldebau. Mae hyn er mwyn gallu cyflawni ein hymrwymiad ein hunain i'r eglwys i ddarparu hyfforddiant trylwyr ac ysbrydoledig i weinidogion y dyfodol, ac i nodi patrymau a lle mae ymgeisydd wedi colli agwedd hanfodol ar y broses ffurfiant. Bydd patrwm rheolaidd o absenoldebau, yn enwedig rhai sydd heb eu hawdurdodi, yn cael eu nodi yn yr adroddiad i'r esgob ac yn y cyfarfod bob chwe mis gyda phob esgob.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol cael mynediad at bolisïau'r Eglwys yng Nghymru, o ran arweiniad yn y dyfodol:
https://www.churchinwales.org.uk/resources/constitution-handbooks/clergy-handbook/
https://www.churchinwales.org.uk/resources/constitution-handbooks/clergy-handbook/section-3/clergy-sickness-ill-health-and-incapacity/

Beth yw absenoldebau wedi'u hawdurdodi a heb eu hawdurdodi?

Mae yna resymau dros absenoldeb sy'n dderbyniol i'r gweithle a sefydliadau academaidd, megis salwch a materion bugeiliol hirdymor. Byddem yn dilyn yr un confensiynau o ran absenoldebau o bob agwedd ar y broses ffurfiant.

Bydd cyrraedd cwrs preswyl yn hwyr iawn neu adael yn gynnar iawn hefyd yn gyfystyr ag absenoldeb, yn ogystal â pheidio â mynychu sesiynau.

Proffesiynoldeb, cwrteisi ac ymddiriedaeth

Agwedd bwysig ar arweinyddiaeth yw meithrin ymddiriedaeth yn y rhai yr ydym yn eu harwain, a disgwyliad y gellir ymddiried ynom i gyflawni ymrwymiadau ac i ymgysylltu'n llawn â'n gweinidogaethau yn y dyfodol. Felly, mae meithrin arferion da yn ystod hyfforddiant yn bwysig. Mae hefyd yn bwysig galluogi'r rhai rydych yn

gweithio â nhw ac yn eu gweinidogaethu ar hyn o bryd i weld eich bod yn newid rôl ac yn symud i gylch gweinidogaeth gwahanol. Weithiau bydd hyn yn golygu rhoi'r gorau i ymrwymiadau a oedd gennych cyn i chi ddechrau hyfforddi ac os bydd angen cefnogaeth bellach arnoch yn hyn o beth, rhowch wybod i ni. Ein hymrwymiad i chi yw ein bod am weld pob un ohonoch yn ffynnu yn ystod eich cyfnod ffurfiant a rhan o'r ymrwymiad hwn yw meithrin diwylliant o broffesiynoldeb, cwrteisi a chywirdeb o fewn y cwrs ac wrth i ni ddelio â'n gilydd.

Cyfrinachedd o fewn Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig a Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau eraill Athrofa Padarn Sant e.e. polisïau preifatrwydd, diogelu data a diogelu.

Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig

Yn Athrofa Padarn Sant rydym yn cynnwys cyfrinachedd corfforaethol fel rhan o'r hyfforddiant i weinidogion. Rydym yn parchu urddas yr ymgeisydd ac eisiau gweld pob ymgeisydd yn blodeuo ac yn tyfu i fod yn berson ac yn weinidog y mae Duw yn galw arnynt i fod.

Mae rôl y tîm tiwtoriaid mewn perthynas ag ymgeiswyr yn gymhleth. Mae gan diwtoriaid gyfrifoldeb bugeiliol yn ogystal â chyfrifoldeb i'r Eglwys yng Nghymru i helpu ymgeiswyr ar eu taith ffurfiannol, perthynas sy'n golygu her yn ogystal â gofal bugeiliol. Byddem yn annog yr ymgeiswyr i fod yn agored ac yn onest gyda'r tiwtoriaid, yn arbennig eu tiwtor Ffurfiant. Swyddogaeth y tiwtor hwnnw yw mynd gyda'r ymgeisydd ar ei daith, hwyluso myfyrio ar ffurfiant a helpu'r ymgeisydd i fynd i'r afael â phob un o'r meini prawf yn eu tro. Lle mae gwaith i'w wneud ar feini prawf penodol, gall tiwtor herio ac annog ymgeisydd o ran ffyrdd i ddysgu, datblygu a newid. Caiff y tiwtor ei gefnogi i wneud hyn gan uwch staff yn Athrofa Padarn Sant. Ar yr un pryd, mae Athrofa Padarn Sant yn gyfrifol am adrodd i'r esgobion ar deithiau ffurfiannol yr ymgeiswyr a rhannu'n agored gyda nhw beth yw cryfderau yn ogystal â gwendidau'r ymgeiswyr ac unrhyw bryderon am eu haddasrwydd ar gyfer gweinidogaeth drwyddedig, neu gymorth penodol y gall fod ei angen ar yr ymgeisydd yn y dyfodol.

Felly, mae'r berthynas hon rhwng ymgeisydd a thiwtor (a staff eraill Athrofa Padarn Sant) yn berthynas broffesiynol. Os bydd ymgeisydd yn dymuno siarad yn gwbl gyfrinachol am fater penodol, awgrymwn eu bod yn siarad â'u cyfarwyddwr ysbrydol neu gaplan dynodedig.

O fewn y tîm tiwtoriaid, os caiff rhywbeth ei rannu gyda thiwtor ffurfiant neu diwtor arall, gall y wybodaeth hon ffurfio rhan o'r daith ffurfiannol yr adroddir arni. Yn yr un modd, efallai y bydd angen i diwtor rannu gwybodaeth gyda'r rhai sydd â chyfrifoldeb goruchwylio e.e. Cyfarwyddwr Ffurfiant, Deon neu Brifathro, aelodau o'r Uwch Dîm arwain Athrofa Padarn Sant ac mewn rhai amgylchiadau gydag esgob yr Esgobaeth.

Fodd bynnag, caiff unrhyw wybodaeth bersonol a fynegir mewn cyd-destun bugeiliol ei rhannu â staff eraill dim ond i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol er mwyn i Athrofa Padarn Sant wneud ei waith; ni fydd byth yn cael ei thrafod yn gyffredinol gyda'r tîm cyfan. Ni chaiff gwybodaeth bersonol senstifi byth ei rhannu ag ymgeisywr eraill, oni bai bod yr ymgeisydd wedi rhoi caniatâd pendant y gellir rhannu'r wybodaeth (er enghraifft, pan fydd ymgeisydd am i diwtor roi gwybod i aelodau o'i grŵp dysgu

am anhawster personol er mwyn eu hatal rhag gorfod cael yr un sgwrs dro ar ôl tro mewn ymateb i gwestiynau'n deillio o bryder gan eu cydweithwyr).

Mae'r cyfrifoldeb corfforaethol hefyd yn ymestyn i bartneriaid eraill Athrofa Padarn Sant sy'n gweithio gyda'r Sefydliad ar ffurfiant ymgeiswyr e.e. hwyluswyr, arweinwyr celloedd ffurfiannol a goruchwylwyr lleoliadau. Eto, perthnasoedd proffesiynol yw'r rhain, sy'n amodol ar gytundeb (cyfamod) a chanllawiau, ac mae gan y rhai dan sylw gyfrifoldebau i gefnogi eich taith ffurfiannol ac adrodd arni. I gael rhagor o wybodaeth am gyfrinachedd o fewn celloedd ffurfiannol, gweler yr adran celloedd ffurfiannol o'r llawlyfr hwn.

Mae cyfrinachedd corfforaethol hefyd yn ymestyn, yn yr un modd ar sail yr angen i wybod, i'r tîm Gweithrediadau.

Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd

Gellir rhannu gwybodaeth sensitif wrth geisio cael cyngor a gwneud cais am gymorth mewn amgylchiadau esgusodol. Yn yr un modd, bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn sensitif a gyda pharch ar sail yr angen i wybodaeth o fewn y tîm tiwtoriaid a gweithrediadau.

Gwyliau

Fel *lleiafswm,* rydym yn disgwyl y bydd gennych o leiaf yr un lwfans gwyliau â chlerigwyr yn yr Eglwys yng Nghymru, p'un a ydych yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth lawn amser neu ran amser. Mae'r llawlyfr ar gyfer clerigwyr yn nodi:

The annual holiday entitlement is four weeks to include four Sundays per annum plus those Bank Holidays which do not fall on Christmas Day and Good Friday. In addition, a Cleric is also entitled to two periods of six days holidays to be taken after Christmas and Easter.

Mae angen dehongli'r lwfans hwn mewn modd hyblyg i'r rhai sy'n cael hyfforddiant - defnyddir sawl dydd Sul ar gyfer hyfforddiant ac felly yn ymarferol chwe wythnos yw'r hawl gwyliau. (Gan gynnwys cyfnodau i ffwrdd ar ôl y Nadolig a'r Pasg, hawl gwyliau clerigwyr yw chwe wythnos namyn dau ddydd Sul.)

Mae'n arfer da trafod eich gwyliau ymhell ymlaen llaw gyda'ch goruchwyliwr lleoliad, o ran cwrteisi, p'un a ydych yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth lawn amser neu ran amser. Disgwyliwn i chi fod ar wyliau pan fyddwch ar wyliau a neilltuo'ch amser ar gyfer hamdden a gorffwys ac nid i ddal i fyny â darllen neu ysgrifennu aseiniadau neu fynychu digwyddiadau eglwysig!

Rydym yn deall ei bod hi'n anodd i'r rheiny sy'n hyfforddi'n rhan amser ac sydd â gwaith llawn amser yn ogystal â chyfrifoldebau teuluol a chyfrifoldebau gofalu eraill, a gall fod yn demtasiwn ceisio astudio a gwneud gwaith lleoliad yn ystod gwyliau o'ch prif swydd. Fodd bynnag, byddem yn eich annog i roi strategaethau da ar waith i sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith yn ystod eich hyfforddiant a chofiwch siarad â'ch tiwtor a/neu oruchwyliwr lleoliad ynglŷn â sut i sicrhau eich bod yn cael digon o amser i ffwrdd bob wythnos yn ogystal â gwyliau o'ch gwaith â thâl a'ch cyfrifoldebau a'ch hyfforddiant eglwysig. Mewn achosion o angen gwirioneddol efallai y byddwn yn gallu bod yn hyblyg.

Mae gan y rhai sy'n hyfforddi'n llawn amser flociau dysgu dwys lle mae disgwyl i chi fod ar y safle yn ystod yr amseroedd hynny. Y tu allan i'r blociau dysgu (a fyddai'n cael eu galw'n wyliau'n draddodiadol) rydym yn dal i ddisgwyl i chi fod ar leoliad ddau ddiwrnod yr wythnos, ond mae'r diwrnodau eraill yn gyfle i astudio, darllen, archwilio a myfyrio mewn modd nad yw bob amser yn bosibl yn ystod y blociau dysgu prysur. Fel yn achos y cyngor uchod, mae hefyd yn bwysig eich bod yn defnyddio eich hawl gwyliau yn llawn ac yn cael saib o astudio a'ch lleoliad.

Siaradwch â'ch tiwtor neu'r Deon os hoffech arweiniad pellach ynglŷn â hyn.

Gwybodaeth ymarferol

Grantiau

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn darparu grantiau i bobl sy'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. I gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar ein gwefan neu siaradwch â'n Cyfarwyddwr Gweithrediadau (manylion cyswllt isod) Mae cost astudio academaidd hefyd yn cael ei thalu wrth hyfforddi yn ogystal â swm bach i dalu am lyfrau a chostau cysylltiedig. Ar gyfer ymgeiswyr llawn amser, mae'r grant yn cael ei gyfrifo'n unigol yn dibynnu ar dai, incwm cartref a chostau byw eraill. Ar ôl i Athrofa Padarn Sant dderbyn ffurflen noddi'r ymgeisydd o'r esgobaeth, trosglwyddir y wybodaeth i adran Gyllid yr Eglwys yng Nghymru. Bydd yr adran yn anfon rhagor o wybodaeth am hawliau grant a ffurflenni i'w cwblhau er mwyn gwneud cais am grantiau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Kathryn Delderfield, ein Cyfarwyddwr Gweithrediadau sy'n ymdrin â grantiau:

E-bost: Kathryn.Delderfield@stpadarns.ac.uk
Ffôn: 029 2056 3379
Ffôn symudol: 07388994732

Treuliau

I'r ymgeiswyr ar gyfer gweinidogaeth gyflogedig sy'n teithio i Gaerdydd, ddydd Mercher i ddydd Gwener, bydd eich costau teithio ar gyfer y teithiau hynny yn cael eu cyfrifo a'u cynnwys yn eich taliadau grant misol. Dylid cwblhau costau lleoliad gan ddefnyddio'r ffurflen ar Moodle a'i chyflwyno i candidate.expenses@stpadarns.ac.uk Gall pob ymgeisydd hawlio costau teithio i gyrsiau preswyl ac i leoliadau y tu allan i ardal eu gweinidogaeth (mewn achosion lle mae ardal y weinidogaeth yn arbennig o eang gellir cymryd hynny i ystyriaeth - cysylltwch â'ch tiwtor os ydych yn credu bod hyn yn berthnasol i chi). I gael ad-daliad teithio bydd angen i ymgeisydd ddarparu naill ai derbynneb yn achos trafnidiaeth gyhoeddus, neu filltiroedd. Telir lwfans milltiroedd ar gyfradd o 45c y filltir am y 10000 milltir gyntaf, a 25c y filltir wedi hynny.

Fel arfer, ni ddylai fod achos i ymgeiswyr hawlio treuliau heblaw treuliau teithio, o gofio bod y grantiau wedi'u cynllunio i dalu costau cysylltiedig eraill. Ar achlysur prin pan fydd ymgeisydd yn mynd i gostau eraill, mae'n rhaid i'r rhain gael eu hawdurdodi ymlaen llaw gan y Deon ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion neu'r Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â threuliau, cysylltwch â Lyn Davies. Mae'r ffurflen ar gael ar Moodle.

Cefnogaeth i bartneriaid â theuluoedd

Yn ogystal â chefnogi ein hymgeiswyr drwy gydol eu hyfforddiant a'u ffurfiant, mae Athrofa Padarn Sant wedi ymrwymo i gefnogi ac annog partneriaid a theuluoedd ein hymgeiswyr. Rydym yn cydnabod bod y weinidogaeth yn aml yn gosod gofynion unigryw ar deuluoedd gweinidogion (byw mewn tai eglwys, gweithio ar benwythnosau, ac ati), ac mae'n bwysig bod partneriaid yn teimlo'n barod ar gyfer hyn. Er bod y weinidogaeth a hyfforddiant yn y weinidogaeth yn bwysig, mae gofalu am y rhai sydd agosaf atom hefyd yn agwedd bwysig ar ein galwedigaeth, ac mae Athrofa Padarn Sant wedi ymrwymo i sicrhau bod teuluoedd ein hymgeiswyr yn ffynnu.

Kristina Hillebert yw ein Cydlynydd ar gyfer Cymorth i Bartneriaid a gellir cysylltu â hi ar kristina.hillebert@gmail.com. Mae gennym hefyd gaplan gwirfoddol, Wendy Matthews sy'n wraig i glerigwr ac sydd wedi treulio ei gyrfa fel therapydd galwedigaethol gan ymdrin ag iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â newidiadau mawr mewn bywyd. Gellir cysylltu â hi ar wendlmatt@yahoo.co.uk neu 01633 258046. Bydda Krisi a Wendy yn falch iawn o glywed gan bartneriaid neu briod.

I'r rhai sy'n hyfforddi'n llawn amser ac yn byw yng Nghaerdydd, mae nifer o gyfleoedd i bartneriaid a theuluoedd fod yn rhan o fywyd y gymuned. Bob wythnos, rydym yn cynnal gwasanaeth addoli i bob oed a 'chinio teuluol', lle mae croeso cynnes i bob teulu. Mae croeso hefyd i bartneriaid ymgeiswyr archwilio modiwl bob tymor ac i fynychu darlithoedd gwadd a gwleddoedd gyda'r nos. Bydd y Tiwtor Preswyl, Jordan, a'i wraig, Krisi, yn aml yn cynnal digwyddiadau cymunedol yn Nhŷ'r Capel, ac mae partneriaid ymgeiswyr wedi cyfarfod yn rheolaidd yn y gorffennol ar gyfer astudiaethau Beiblaidd, nosweithiau gêm, ac ati. Ddwywaith y flwyddyn, rydym yn darparu 'cinio' er mwyn i briod ein hymgeiswyr gymdeithasu a chlywed gan siaradwr gwadd. I'r ymgeiswyr hynny sydd wedi'u lleoli mewn esgobaeth, gellir sicrhau bod ystafelloedd ar gael o bryd i'w gilydd er mwyn i'w teuluoedd ymuno â nhw ar gyfer digwyddiadau/prydau bwyd/addoli yn y coleg.

I'r rhai sy'n hyfforddi'n rhan-amser, cysylltwch â'ch tiwtor ynglŷn â chefnogaeth i briod oherwydd gellir trefnu gweithgareddau lleol. Mae hwn yn faes rydym yn awyddus i'w ddatblygu, ond oherwydd bod gan briod anghenion a phatrymau gwaith gwahanol, mae'r hyn sy'n briodol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Ffurflenni

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Cofnod Ffurfiant 2021/22

Mae'r Cofnod Ffurfiant yn ddogfen allweddol, a dyma lle y nodir eich cynnydd ffurfiannol. Caiff y ddirnadaeth a gawsoch o'ch cyfarfodydd ffurfiant 1-1 gyda'ch tiwtor, yn ogystal â'ch nodau ffurfiannol eu nodi yma. Mae croeso i chi weld copi o'ch Cofnod Ffurfiant ar unrhyw adeg.

Enw'r Ymgeisydd:	Manylion cyswllt:
Yr esgobaeth sy'n noddi (ac yn anfon MA os yn briodol):	Gweinidogaeth / categori:
Dyddiad trwyddedu / ordeinio:	Nifer o flynyddoedd yn hyfforddi:
Tutor:	

Hyfforddiant

Dull hyfforddi:	
Llwybr Dysgu:	Lleoliad a goruchwyliwr:
Unrhyw brofiadau gweinidogol ychwanegol:	
Arweinydd cell ffurfiannol:	Hwylusydd a grŵp (os yn rhan-amser):

Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogol Blwyddyn 1:
Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogol Blwyddyn 2:
Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogol Blwyddyn 3:
Neu lwybr?

Sgiliau a phrofiadau perthnasol hyd yma:

Cynnydd ffurfiannol

Cymwyseddau a nodau, cryfderau a chyfleoedd datblygu ffurfiannol A. Y ffydd, y traddodiad a'r bywyd Cristnogol B. Cenhadaeth, efengyliaeth a disgyblaeth C. Ysbrydolrwydd ac addoli D. Perthnasoedd E. Personoliaeth a chymeriad F. Arweinyddiaeth, cydweithredu a chymuned G. Galwad a gweinidogaeth o fewn yr Eglwys yng Nghymru

Asbenoldeb

Rhowch fanylion unrhyw absenoldeb:

Absenoldeb nad oedd modd ei osgoi	Absenoldeb y gall fod angen ei nodi yn yr adroddiad i'r Esgob:

Rhaid i unrhyw newidaidau i lwybr hyfforddi ymgeiswyr gael eu cytuno drwy drafodaeth â'r Deon Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion.

Cytundeb ar gyfer Hyfforddiant ar Leoliad

Dylid llunio'r cytundeb hwn mewn trafodaeth rhwng yr ymgeisydd, y goruchwyliwr a Thiwtor priodol Athrofa Padarn Sant. Mae angen iddo gael ei gymeradwyo gan y Tiwtor ar gyfer Hyfforddiant cyd-destunol.

1. Manylion cyffredinol

Ardal Cenhadaeth / Ardal Gweinidogaeth / Bywoliaeth:

Ymgeisydd

Gweinidogaeth y mae'r ymgeisydd yn cael ei hyfforddi ar ei chyfer

Blwyddyn hyfforddi

Goruchwyliwr

Patrwm gweithio wythnosol arferol:

2. Datblygiad ffurfiannol

Rhestr o dasgau i'w cwblhau gyda dyddiadau ar gyfer y cyfnod cychwynnol (dyddiadau pellach i'w hychwanegu gydol y flwyddyn)

Dyddiadau goruchwylio:

Gwaith prosiect: Unrhyw brosiect yn Ardal y Weinidogaeth y gall yr ymgeisydd fod yn rhan ohono neu ei arwain?

Llofnodwyd: (Goruchwyliwr)

Llofnodwyd: (Ymgeisydd)

Llofnodwyd: (Tiwtor Hyfforddiant Cyd-destunol)

(Llofnodwyd: Tiwtor_

[Dylai Tiwtor Athrofa Padarn Sant gadw copi o'r ddogfen hon ac anfon copi at reporting@stpadarns.ac.uk]

Ffurflen Adborth ar Bregethu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â chwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â'r Parchedig Chris Thomson ar Chris.thomson@stpadarns.ac.uk Gall y goruchwyliwr, gweinidog profiadol arall neu aelodau o'r gynulleidfa ddefnyddio'r ffurflen hon.

Mae adborth yn rhan hanfodol o dyfu a dysgu fel pregethwr newydd. Rydym felly yn hynod ddiolchgar i chi am fod yn barod i roi adborth. Ysgrifennwch yn onest a rhowch enghreifftiau os yn bosibl. Diolch yn fawr am chwarae rhan bwysig yn ffurfiant a hyfforddiant yr unigolyn a roddodd y ffurflen hon i chi. Cwblhewch gymaint ag y gallwch ac mae croeso i chi hepgor unrhyw gwestiynau sy'n ymddangos yn amherthnasol.

Enw'r Ymgeisydd

Enw'r Eglwys

Math o wasanaeth (e.e. Cymundeb/Gwasanaeth y Gair/Pob oedran/ac ati)

Dyddiad a diwrnod yng nghalendr yr eglwys

Eich rôl (goruchwyliwr, aelod o'r gynulleidfa ac ati)

Beth oedd neges gyffredinol y bregeth?

Sut yr oedd y bregeth yn gysylltiedig â'r darlleniad neu ddarlleniadau o'r Beibl? A wnaeth y pregethwr/aig amlygu ystyr un o'r darnau o leiaf yn effeithiol ac yn briodol?

A oedd y bregeth wedi'i hanelu'n effeithiol at y gynulleidfa ac a oedd y defnydd o iaith yn briodol ar eich cyfer chi/eu cyfer nhw, yn eich barn chi?

Pa ran o'r bregeth a oedd fwyaf diddorol i chi a pham?

Pa ran o'r bregeth nad oedd yn gallu uniaethu â hi? Pam?

A weithiodd y darluniau ysgogol (sermon illustrations)? Beth oedd yn eu gwneud nhw'n effeithiol?

Sylwadau ar y traddodi: Sut yr oedd y pregethwr/aig wrth ddefnyddio:

- llais (e.e. oeddech chi'n gallu clywed yn hawdd? A oedd y pregethwr yn gweiddi/yn swnio'n frwdfrydig neu wedi diflasu? ac ati)

- iaith y corff (e.e. a wnaeth y pregethwr/aig gerdded o gwmpas neu ddefnyddio symudiadau dwylo a braich oedd yn helpu'r bregeth neu'n tynnu sylw oddi wrthi?)

- cyswllt llygad? (e.e. a oedd y pregethwr/aig yn edrych ar eu nodiadau drwy'r amser/yn edrych ar y bobl o bryd i'w gilydd?)

A oes unrhyw beth y byddwch chi'n ei wneud o ganlyniad i'r bregeth hon?

Ac os oes gennych unrhyw sylwadau arall, nodwch nhw yma neu ar ddalen arall o bapur.

Rhowch y ffurflen hon yn ôl i'r person a'i rhoddodd i chi.

(Ymgeiswyr – anfonwch gopi o'r ffurflen hon at eich tiwtor ac at reporting@stpadarns.ac.uk. Cadwch gopi hefyd ar gyfer eich cofnodion).

Adroddiad terfynol lleoliad

Adroddiad y Goruchwyliwr:

Ymgeisydd:
Gweinidogaeth:
Goruchwyliwr:

Ffurfiant y Weinidogaeth
Gwnewch sylw ar ddatblygiad personol a gweinidogol yr ymgeisydd tuag at weinidogaeth drwyddedig yn yr Eglwys yng Nghymru. Beth yw'r cryfderau a'r gwendidau?

Dealltwriaeth o'r Ffydd
Gwnewch sylw ar sut maen nhw'n cyfathrebu eu ffydd a'u dysg o fewn yr eglwys/eglwysi yn enwedig wrth bregethu (os ydyn nhw'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu).

Ysbrydolrwydd ac addoli
Sut maen nhw'n ysbrydoli eraill drwy addoli a thrwy eu hysbrydolrwydd eu hunain?

Cenhadaeth ac efengylu
Gwnewch sylw ar eu gallu i gymryd rhan yn effeithiol yng nghenhadaeth yr eglwys, a'u sgiliau efengylu.

Personoliaeth a chymeriad
Gwnewch sylw ar eu personoliaeth a'u cymeriad, ynghyd â'u gwytnwch a'u hymateb i straen.

Perthnasoedd
Gwnewch sylw ar eu gallu i ysgogi a datblygu perthnasoedd o fewn tîm y weinidogaeth, yr eglwys a'r gymuned. Sut maen nhw'n datblygu o ran eu cymeriad ac a yw eu personoliaeth yn un sy'n ennyn diddordeb ac yn meithrin perthynas ag eraill? Sut maen nhw'n cael eu cefnogi gan eu rhwydwaith deuluol a'u ffrindiau?

Arweinyddiaeth
Gwnewch sylw ar eu gallu i arwain meysydd ym mywyd yr eglwys ac i fod yn aelod effeithiol o dîm.

Arfer Myfyriol
Gwnewch sylw ar eu gallu i fyfyrio ar eu harfer ac i ddefnyddio'r myfyrdod hwnnw i weithredu'n wahanol yn y dyfodol.

Anghenion Hyfforddi Pellach
Nodwch unrhyw feysydd lle rydych chi'n meddwl y byddai'r ymgeisydd yn elwa o gael hyfforddiant pellach.

Unrhyw Sylwadau Ychwanegol

Llofnod

Goruchwyliwr

Dyddiad y trafodwyd â'r ymgeisydd, ac unrhyw arsylwadau

- Anfonwch gopi o'r ffurflen hon at y myfyriwr ac at reporting@stpadarns.ac.uk

Rhestr Wirio ac Adroddiad Blynyddol ar gyfer Lleoliad

Ymgeisydd:
Gweinidogaeth:
Goruchwyliwr:

Dyddiadau cyfarfodydd goruchwylio:

- Cryfderau'r ymgeisydd yn eu gweinidogaeth
- Meysydd i'w datblygu y trafodwyd wrth oruchwylio
- Tasgau'r weinidogaeth (disgrifiad byr ac adborth)
- Ymgysylltu â'r gymuned ehangach (disgrifiad byr ac adborth)
- (Os yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu) Pregethau a bregethwyd a dyddiadau: (ffurflenni wedi'u hanfon at Athrofa Padarn Sant?)

Dylai ymgeiswyr sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu 6 gwaith y flwyddyn a chael adborth gan aelodau'r gynulleidfa a goruchwylwyr.

Os hoffech drafod cynnydd yr ymgeisydd, cysylltwch â'r Parchedig Chris Thomson.

Ffurflen Hunanasesu

Dychwelwch y ffurflen hon at reporting@stpadarns.ac.uk
Cysylltwch â'ch tiwtor ffurfiannol i drefnu cyfarfod i drafod eich adroddiad (dros y ffôn neu wyneb yn wyneb neu'n rhithiol).
Cofiwch gysylltu â'ch tiwtor os oes angen help arnoch i ysgrifennu'r hunanasesiad.

Enw:

Yr Esgobaeth sy'n noddi:
Gweinidogaeth/categori:
Nifer o flynyddoedd dan hyfforddiant:

Modd hyfforddi
Cwrs academaidd:
Lleoliad a goruchwylydd:
Unrhyw brofiadau gweinidogaethol ychwanegol?
Carfanau DYG (TPM) Bl 1
Bl 2
Bl 3

Sgiliau a phrofiadau perthnasol cyn dechrau'r hyfforddiant:
Yn fyr, pa sgiliau trosglwyddadwy oedd gennych cyn yr hyfforddiant, a pha ran fu gennych yn y weinidogaeth cyn hynny?

Bydd yr adroddiad terfynol yn defnyddio'r meini prawf yn *'Church Serving God's World'* sydd ar gael ar Moodle o dan Gwybodaeth i Ymgeiswyr. Mae'r cwestiynau hyn yn adlewyrchu'r meini prawf felly defnyddiwch y rhain fel man cychwyn i archwilio'ch datblygiad - nid oes angen ateb pob cwestiwn, a dim ond os ydyn nhw'n eich helpu i archwilio'ch ymateb i'r gwahanol benawdau y dylech eu defnyddio. Yn yr un modd, os oes rhywbeth rydych chi am ei ddweud ond sydd heb ei adlewyrchu mewn cwestiwn, mae croeso i chi nodi'ch myfyrdod o dan y pennawd perthnasol. Mae croeso i chi ddileu'r cwestiynau ar ffurf pwyntiau bwled ar ôl i chi ymateb o dan bob pennawd.

Cynnydd ffurfiannol

A. Y ffydd, y traddodiad a'r bywyd Cristnogol

- Pa fodiwlau/bynciau ydych chi wedi'u hastudio yn ystod eich hyfforddiant? Pa fodiwlau wnaeth argraff arnoch chi a sut?

- Sut mae eich dealltwriaeth o'r Beibl wedi dwysáu? Sut mae eich dealltwriaeth o'r traddodiad Cristnogol wedi datblygu?
- A ydych chi'n teimlo'n barod i weithio o fewn ehangder cred ac ymarfer yr Eglwys yng Nghymru?
- Sut mae'r hyn rydych wedi'i ddysgu wedi'ch helpu i gysylltu diwinyddiaeth â'r eglwys, cymdeithas a bod yn ddisgybl?

B. Cenhadaeth, efengyliaeth a bod yn ddisgybl

- Beth yw cenhadaeth yn eich tyb chi?
- Beth mae'r gair efengyliaeth yn ei olygu i chi?
- Sut mae'r hyfforddiant a'r modiwlau rydych wedi'u hastudio wedi'ch helpu i ddeall cenhadaeth yr eglwys, ac i fynegi'r newyddion da yn fwy effeithiol?
- Sut ydych chi wedi galluogi'r gwaith cenhadu ac efengylu yn eich eglwys/eglwysi ar leoliad?
- A ydych chi wedi cael cyfleoedd ar leoliad i fod yn rhan o waith yr eglwys ac i fod yn ddisgybl yn addysgu a meithrin?

C. Ysbrydolrwydd ac addoli

- Beth yw eich patrwm gweddïo?
- Sut ydych chi wedi datblygu o ran ffydd, gweddi ac ysbrydolrwydd yn ystod eich cyfnod hyfforddi?
- Sut ydych chi wedi teimlo Duw mewn ffyrdd disgwyliedig ac annisgwyl?
- Pa ffyrdd newydd o weddïo gawsoch chi brofiad ohonyn nhw?
- Sut ydych chi wedi datblygu o ran cymhwysedd i arwain addoliad a phregethu (os yw'n rhan o'ch gweinidogaeth).
- A oes unrhyw beth wedi'ch synnu? Pa brofiad litwrgaidd gawsoch chi yn ystod eich hyfforddiant ac ar leoliad a beth wnaeth argraff arnoch chi?

D. Perthnasoedd

- Beth ydych chi wedi'i ddysgu am reoli eich perthnasoedd eich hun (teulu a ffrindiau) ac am reoli perthnasoedd wrth hyfforddi ac ar leoliad yn eich eglwysi?
- Sut ydych chi wedi ymateb i berthnasoedd anodd?
- Pa berthnasoedd bugeiliol sydd wedi gwneud argraff arnoch a pham?

E. Personoliaeth a chymeriad

- Sut ydych chi wedi datblygu fel unigolyn ac wedi aeddfedu?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu amdanoch chi'ch hun trwy'r profiad o ffurfiant?

- A oes unrhyw beth fyddai'n werth ei gynnwys yn yr adroddiad hwn ynglŷn â'ch gwydnwch, doniau, bregusrwydd, gwendidau a'ch dealltwriaeth o aberth?
- Beth hoffech chi barhau i weithio arno yn ystod cyfnod gweinidogaeth drwyddedig newydd?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu am hunanofal?

F. Arweinyddiaeth, cydweithio a chymuned

- Beth ydych chi wedi'i ddysgu am arweinyddiaeth ac awdurdod yn ystod eich ffurfiant?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu am gydweithio ac am waith tîm?
- Sut ydych chi wedi galluogi gweinidogaethau unigolion eraill?

G. Galwedigaeth a Gweinidogaeth yn yr Eglwys yng Nghymru

- Sut mae eich galwedigaeth wedi datblygu a thyfu?
- Beth yw'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r Eglwys yng Nghymru wrth i chi gychwyn ar gyfnod newydd o'ch gweinidogaeth?
- Sut deimlad yw bod yn weinidog cyhoeddus yn yr Eglwys yng Nghymru?

Hyfforddiant a Datblygiad yn y Dyfodol

Beth yw eich nodau yn y tymor byr a'r tymor canolig o ran hyfforddiant parhaus a'ch datblygiad yn y dyfodol? Beth yw'r ffordd orau i (a) Padarn Sant a (b) yr Eglwys yng Nghymru sicrhau adnoddau ar gyfer yr amcanion hyn? A oes unrhyw feysydd penodol lle mae angen i chi wneud rhagor o waith?

Materion iechyd

A oes unrhyw faterion iechyd parhaus y dylem fod yn ymwybodol ohonyn nhw?

Sylwadau ychwanegol

A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud? A oes unrhyw anghenion cymorth neu deuluol yr hoffech i ni fod yn ymwybodol ohonyn nhw neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'ch hyfforddiant?

Llofnodwch a dyddiwch y ffurflen hon ac e-bostiwch y ffurflen at reporting@stpadarns.ac.uk

Llofnod:

Dyddiad:

Adolygiad Blynyddol Cell Ffurfiannol

Enw'r Tywysydd Ffurfiannol:

Enw'r ymgeisydd:

Gwnewch sylw ar sut y bu i'r ymgeisydd ymgysylltu â'r grŵp.

Dangoswyd tystiolaeth o ymgysylltu â'r broses ffurfiant yn y ffyrdd hyn:

Os oes unrhyw bryderon ynglŷn â'r ymgeisydd, trafodwch y rhain gydag ef, a hefyd rhowch fanylion a fydd yn cael eu rhannu â'r Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig.

Nifer y Sesiynau a fynychwyd:

Llofnodwyd: Dyddiad:

Tywysydd Ffurfiannol
Anfonwch gopi o'r ffurflen hon at y myfyriwr ac at reporting@stpadarns.ac.uk

Adroddiad Cell Ffurfiannol

Enw'r Arweinydd Ffurfiant:

Enw'r Ymgeisydd:

Soniwch am sut y bu'r ymgeisydd yn ymgysylltu â'r grŵp (e.e. a oedd yr ymgeisydd wedi paratoi a gyda rhywbeth i'w rannu'n rheolaidd, a wnaeth yr ymgeisydd arddangos parodrwydd/gallu i hunanfyfyrio, a wnaeth yr ymgeisydd arddangos tystiolaeth o integreiddio gwahanol agweddau o'u hyfforddiant a'u ffurfiant, a wnaeth yr ymgeisydd gyfrannu'n gadarnhaol at ffurfiant eraill yn y grŵp, a oedd yr ymgeisydd yn parchu aelodau eraill y grŵp, ayb.?)

Tystiolaeth o ymgysylltu â'r broses ffurfio (Yn seiliedig ar gyfranogiad yr ymgeisydd yn y grŵp a'i fyfyrdodau/myfyrdodau personol, beth oedd y prif feysydd twf a datblygiad y buoch yn dyst iddyn nhw? Ym mha feysydd y gallai'r ymgeisydd elwa o ragor o hyfforddiant/ffurfiant? Gallai'r meysydd hynny gynnwys: dealltwriaeth o'r ffydd, ysbrydolrwydd ac addoli, cenhadaeth ac efengyliaeth, personoliaeth a chymeriad, perthnasoedd, arwain, ymarfer myfyriol.)

Nifer y sesiynau a fynychwyd:

Llofnod: Dyddiad:

Arweinydd Ffurfiant
Anfonwch gopi o'r ffurflen hon at y myfyriwr ac at Reporting@stpadarns.ac.uk

Ffurflen absenoldeb o gyfnod preswyl

Enw

Esgobaeth

Dyddiad y cyfnod preswyl

Hoffwn wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol o'r cyfnod preswyl uchod ar sail:

a. Salwch ☐

b. Mater bugeiliol tymor byr ☐

c. Mater bugeiliol tymor hir ☐

d. Rhesymau personol arall (e.e. cyfnod preswyl yn gwrthdaro â digwyddiad teuluol pwysig, pen-blwydd Priodas Aur ac ati) ☐

Rwy'n awdurdodi'r absenoldeb hwn
Llofnod

Deon / Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig dyddiad:

Dyddiadau pwysig

Teaching Block 1

Date	what	who
25-30 July 2020	**Summer School**	all part-time students and part time candidates
11 September 2021	BTh Introductory session Delivered online	all part-time students and part time candidates
13 Sep-10 Dec 2021	8 weekly local facilitated sessions	all part-time students and part time candidates
16 Sep-25 November 2021	Level 6 Teaching Thursday evenings online 7-9pm	all part-time students and **all candidates** studying at Level 6
15-17 September 2021	full-time week 1	all full-time candidates
22-24 September 2021	full-time week 2	all full-time candidates
29 Sep- 1 October 2021	full-time week 3	all full-time candidates
6-8 October 2021	full-time week 4	all full-time candidates
13-15 October 2021	full-time week 5	all full-time candidates
15-17 October 2021	**Autumn Residential venue tbc**	**all full and part time candidates**
20-22 October 2021	full-time week 6	all full-time candidates
25-29 October 2021	**Reading week**	all part-time students and all candidates
3-5 November 2021	full- time week 7	all full-time candidates
6 November 2021	BTh midterm seminar delivered in local locations	all part-time students and part time candidates
10-12 November 2021	full-time week 8	all full-time candidates
17-19 November 2021	full-time week 9	all full-time candidates
24-26 November 2021	full-time week 10	all full-time candidates

Teaching Block 2

2 December – 3 March 2022	Level 6 Teaching Thursday evenings online 7-9pm	all part-time students and **all candidates** studying at Level 6
1-3 December 2021	full-time week 1	all full-time candidates
8-10 December 2021	full-time week 2	all full-time candidates
13 Dec- 3 January 2022	**Christmas**	
5-7 January 2022	full-time week 3	all full-time candidates
8 January 2022	BTh Introductory Session Delivered online	all part-time students and part time candidates
10 Jan- 4 March 2022	8 weekly local facilitated sessions	all part-time students and part time candidates
12-14 January 2022	full-time week 4	all full-time candidates
19-21 January 2022	full-time week 5	all full-time candidates

Date	what	who
26-28 January 2022	full-time week 6	all full-time candidates
2-4 February 2022	full-time week 7	all full-time candidates
5 February 2022	BTh midterm seminar delivered in local locations	all part-time students and part time candidates
9-11 February 2022	full-time week 8	all full-time candidates
11-13 February 2022	**Winter residential venue tbc**	**all full and part-time candidates**
16-18 February 2022	full-time week 9	all full-time candidates
21-25 February 2022	**Reading week**	all part-time students and all candidates
2-4 March 2022	full-time week 10	all full-time candidates

Teaching Block 3

9-11 March 2022	full-time week 1	all full-time candidates
10 March – 2 June 2022	Level 6 Teaching Thursday evenings online 7-9pm	all part-time students and **all candidates** studying at Level 6
12 March 2022	BTh Introductory session Delivered online	all part-time students and part time candidates
15 Mar-28 May 2022	8 weekly local facilitated sessions	all part-time students and part time candidates
16-18 Mar 2022	full-time week 2	all full-time candidates
23-25 Mar 2022	full-time week 3	all full-time candidates
30 Mar-1 Apr 2022	full-time week 4	all full-time candidates
6-8 April 2022	**Easter Break**	all candidates
13-15 April 2022	**Holy Week**	all candidates
20-22 April 2022	**Easter Break**	all candidates
27-29 April 2022	full-time week 5	all full-time candidates
4-6 May 2022	full-time week 6	all full-time candidates
7 May 2022	BTh midterm seminar delivered in local locations	all part-time students and part time candidates
11-13 May 2022	full-time week 7	all full-time candidates
18-20 May 2022	full-time week 8	all full-time candidates
20-22 May 2022	**Spring Residential weekend venue tbc**	**all full and part-time candidates**
25-27 May 2022	full-time week 9 Leavers week?	all full-time candidates
1-3 June 2022	full-time week 10	all full-time candidates

May Bank Holidays: Monday 02 May 2022 and Monday 30 May 2022